

Datgarboneiddio'r sector tai preifat

Chwefror 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddHinsawdd@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddHinsawdd](https://twitter.com/SeneddHinsawdd)**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Datgarboneiddio'r sector tai preifat

Chwefror 2023



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:
Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



Janet Finch-Saunders AS
Ceidwadwyr Cymreig



Huw Irranca-Davies AS
Llafur Cymru



Delyth Jewell AS
Plaid Cymru



Jenny Rathbone AS
Llafur Cymru



Joyce Watson AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Argymhellion.....	6
1. Cyflwyniad.....	10
Cylch gorchwyl.....	10
Ein dull ni.....	11
2. Y farn ar y cynnydd hyd yn hyn.....	12
Yr hyn a ddywedodd rhanddeiliaid wrthym am y cynnydd.....	13
Mae diffyg strategaeth glir yn atal cynnydd.....	14
Rôl targedau o ran ysgogi newid	15
Ein barn ni	18
3. Gwneud y gorau o gynlluniau effeithlonrwydd ynni presennol?	22
Y Rhaglen Cartrefi Clyd	22
Rhwymedigaeth Cwmni Ynni.....	23
Cynllun Uwchraddio Boeleri	24
Ein barn ni	26
4. Dull rheoleiddio i gynyddu gweithgarwch effeithlonrwydd ynni	29
Codi safonau yn y sector rhentu preifat.....	29
Cyflwyno safonau yn y sector perchen-feddianwyr	32
Ein barn ni	34
5. Mynd i'r afael â'r bylchau o ran gwybodaeth a data	37
Deall y stoc dai bresennol.....	37
Mynediad at ddata mesuryddion clyfar.....	37

Pasbortau Adnewyddu Adeiladau.....	38
Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.....	40
Cyngor a chymorth annibynnol.....	41
Ein barn ni	43
6. Datblygu sgiliau a'r gadwyn gyflenwi	46
Ein barn ni	47
7. Cymhellion cyllidol a datrysiadau ariannol.....	49
Sbarduno galw drwy gymhellion cyllidol.....	49
Morgeisi gwyrdd	50
Talu cost ôl-osod effeithlonrwydd ynni.....	51
Datrysiadau ariannol ar gyfer y rhai sy'n 'gallu talu'	52
Ein barn ni	57
Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.....	60
Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....	62

Rhagair y Cadeirydd

Wrth i'r byd fynd i'r afael â phwnc llosg newid hinsawdd, rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau rhagweithiol i ddatgarboneiddio cartrefi presennol Cymru. Er bod hon yn sefyllfa frys, mae'r sector tai preifat yn cael ei adael ar ôl yn y daith tuag at ddyfodol gwyrddach.

Gyda dros filiwn o gartrefi yn y sector tai preifat, yng Nghymru, gyda'r mwyafrif ohonynt yn parhau i gael eu defnyddio yn 2050, mae angen dybryd am gynllun cynhwysfawr i ôl-osod y cartrefi hyn ar gyfer effeithlonrwydd ynni gwell a gwresogi carbon isel. Mae'n dasg enfawr. Ond heb unrhyw strategaeth na chynllun hirdymor ar gyfer paratoi'r sector i ddatgarboneiddio, dim cynigion polisi cadarn i gymell ôl-osod, a thwll enfawr lle dylai datrysiadau ariannol i'r rhai sy'n 'gallu talu' fod, mae gan Lywodraeth Cymru swm anferthol o waith i'w wneud. Waeth pa mor aml y cawn ein hatgoffa o'r heriau o ran datgarboneiddio'r sector, erys y ffaith – mae angen gwneud y gwaith, ac nid oes llawer o amser ar ôl i'w wneud.

Wrth inni gyhoeddi'r adroddiad hwn, mae'r argyfwng costau byw yn dyfnhau. Mae biliau ynni'n dal i gynyddu'n aruthrol, ac mae tlodi tanwydd ar ei uchaf erioed. Mae aelwydydd ledled Cymru yn brwydro i gadw eu pennau uwch wyneb y dŵr. I lawer o berchnogion tai, bydd y posibilrwydd o fod angen buddsoddi mewn mesurau ôl-osod ar ryw bwynt yn y dyfodol agos yn beth hynod anodd ar y gorau. Yn amlwg, ni fydd arian cyhoeddus yn ymestyn i dalu'r gost o ôl-osod holl gartrefi Cymru. Dylai'r rhai sy'n gallu fforddio talu wneud hynny, a dylai'r rhai sy'n metu talu gael cymorth ychwanegol. Mae datrysiadau ariannol a fydd yn sicrhau bod ôl-osod o fewn cyrraedd pob perchennog tŷ. Yn anffodus, nid ydynt ar gael eto. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu'n gyflymach i fynd i'r afael â hyn os yw am wneud cynnydd.

Efallai nad yw'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn chwyldroadol, ond maent yn hanfodol bwysig. Heb weithredu pendant, ni fydd y wlad yn cyrraedd ei thargedau newid hinsawdd, a bydd y sector tai preifat yn parhau i gael ei adael ar ôl. Rhaid i Lywodraeth Cymru symud ymlaen yn awr o'r cyfnod 'profi a dysgu' a dechrau 'gwneud penderfyniadau a chyflawni', fel bod holl gartrefi Cymru'n gallu dechrau ar y daith tuag at ddatgarboneiddio.



Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu cyfeiriad strategol mwy eglur a chryf i'r diwydiant ac i weithredwyr eraill i helpu i ysgogi cynnydd tuag at ddatgarboneiddio cartrefi presennol Cymru.....Tudalen 20

Argymhelliad 2. Os nad yw'r Gweinidog yn bwriadu datblygu a chyhoeddi strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datgarboneiddio tai, dylai egluro'r newid yn y sefyllfa ers ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.....Tudalen 20

Argymhelliad 3. Rhaid i gynllun cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio tai gynnwys cerrig milltir a thargedau interim allweddol ar gyfer y sector preifat.....Tudalen 20

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd tuag at ddatblygu'r cynllun cyflawni erbyn chwe mis fan bellaf ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn. Dylai hi hefyd ymrwymo i ddarparu adroddiadau cynnydd bob chwe mis wedi hynny.....Tudalen 20

Argymhelliad 5. Rhaid i'r Gweinidog gyhoeddi adroddiad interim ar ganfyddiadau'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio hyd yma.Tudalen 21

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog egluro pam y dewisodd hi beidio â chynnwys y sector rhentu preifat o ddechrau Cyfnod 3 y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Rhaid iddi hefyd esbonio sut a phryd y bydd y dull ôl-osod er mwyn optimeiddio yn cael ei "ymestyn" i gartrefi'r sector rhentu preifat a chartrefi â pherchennog.....Tudalen 21

Argymhelliad 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hymateb i'r ymgynghoriad ar iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd erbyn mis Mawrth 2023 fan bellaf. Os nad yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i wneud hynny, rydym yn disgwyl iddi egluro'r rheswm wrth ymateb i'r adroddiad hwn.Tudalen 27

Argymhelliad 8. Rhaid i ymateb Llywodraeth Cymru i'w hymgynghoriad ar iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd roi rhagor o fanylion am y cynllun Nyth newydd, gan gynnwys meini prawf cymhwysedd, capiau cost a mesurau ôl-osod effeithlonrwydd ynni.....Tudalen 28

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth ar ôl i gynllun presennol Nyth ddod i ben a lansio'r cynllun newydd yn ei le. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflymu'r gwaith ar y cynllun newydd fel bod modd ei lansio erbyn diwedd haf 2023 fan bellaf.

.....Tudalen 28

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog roi esboniad manwl o'r rhaglen newydd arfaethedig i gefnogi'r broses o ddatgarboneiddio tai (y cyfeirir ati yn ei llythyr at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol), gan gynnwys pryd y caiff ei lansio, sut y bydd yn cefnogi'r sector 'gallu talu', a'r lefel buddsoddiad a fydd ar gael i gyflwyno'r rhaglen dros y tair blynedd nesaf.Tudalen 28

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog ymrwymo i fonitro effaith y "dull cydweithredol" at ECO4 ar gyfranogiad awdurdodau lleol yn y cynllun ac ar lefel cyllid ECO i Gymru.....Tudalen 28

Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog archwilio gyda Sefydliad Ynni UCL y potensial ar gyfer defnyddio ei fodel stoc adeiladau Cymru gyfan fel ffordd o ganfod aelwydydd sy'n gymwys ar gyfer cyllid ECO ac ar gyfer unrhyw gyllid grant yn y dyfodol i gefnogi ôl-osod effeithlonrwydd ynni. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlyniad cyn gynted ag y bo'n ymarferol.Tudalen 28

Argymhelliad 13. Dylai'r Gweinidog egluro a yw Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo Cynllun Uwchraddio Boeleri Llywodraeth y DU ymhlith perchnogion tai yng Nghymru, a sut y mae'n gwneud hynny.Tudalen 28

Argymhelliad 14. Dylai'r Gweinidog adolygu canllawiau Llywodraeth Cymru ar ganiatâd cynllunio ar gyfer pypiau gwres gyda'r bwriad o lacio'r gofyniad na all unrhyw ran o'r pwmp gwres gael ei osod o fewn tri metr i ffin eiddo, yn unol â Lloegr.....Tudalen 28

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog egluro safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch y defnydd o safonau rheoleiddio i gynyddu gweithgarwch ôl-osod yn y sector preifat, gan gynnwys a yw'n cefnogi cynnig Llywodraeth y DU i gynyddu'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni yn y sector rhentu preifat.....Tudalen 35

Argymhelliad 16. Dylai'r Gweinidog:

- esbonio pryd a sut y caiff Cynllun Lesio Cymru ei ehangu i gefnogi uchelgeisiau datgarboneiddio ehangach Llywodraeth Cymru; a
- darparu manylion lefel y buddsoddiad a fydd ar gael i gyflawni'r Cynllun dros y tair blynedd nesaf. Tudalen 36

Argymhelliad 17. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos arweiniad ac ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth y DU ar y lefel uchaf i sicrhau bod anghenion adnoddau awdurdodau lleol Cymru mewn perthynas â chydymffurfiaeth a gorfodaeth y Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni yn cael eu deall a'u diwallu'n llawn.....Tudalen 36

Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog, ar y cyd â Rhentu Doeth Cymru ac awdurdodau lleol, adolygu'r trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth a gorfodaeth y Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni, gyda golwg ar nodi meysydd posibl i'w gwella. Dylai'r adolygiad gynnwys, fel isafswm:

- rôl Rhentu Doeth Cymru o ran codi ymwybyddiaeth o'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni ymhlith landlordiaid ac o ran nodi eiddo sy'n tanberfformio, a
- sut y caiff gwybodaeth am eiddo sy'n tanberfformio ei rhannu rhwng sefydliadau i sicrhau cymorth wedi'i dargedu a/neu gamau cydymffurfio a gorfodi. Tudalen 36

Argymhelliad 19. Dylai'r Gweinidog egluro pam na chynhaliwyd arolwg tai Cymru yn 2022. Dylai ymrwymo i gynnal arolwg cenedlaethol parhaus, yn debyg i'r English Housing Survey, gan gynnal yr arolwg cyntaf cyn gynted ag sy'n ymarferol. Os nad yw'r Gweinidog yn fodlon ymrwymo i arolwg o'r fath, dylai roi esboniad manwl o'r rheswm pam. Tudalen 44

Argymhelliad 20. Dylai'r Gweinidog egluro a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella'r ddealltwriaeth o'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon yn y sector preifat heb fynediad at ddata clyfar, a sut y bydd yn gwneud hynny.....Tudalen 44

Argymhelliad 21. Dylai'r Gweinidog roi manylion ei thrafodaethau diweddaraf gyda Llywodraeth y DU ar gael mynediad at ddata mesuryddion clyfar. Dylai hi ymrwymo i barhau i bwysu ar Lywodraeth y DU ar y mater hwn hyd nes y gellir dod i benderfyniad.....Tudalen 44

Argymhelliad 22. Dylai'r Gweinidog ymrwymo i weithredu'r argymhelliad a wnaed yn adroddiad Jofeh mewn perthynas â Chofnodlyfrau Cartref/Pasbortau Adnewyddu Adeiladau. Wrth wneud hynny, dylai archwilio'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor hwn y gallai Pasbortau Adnewyddu Adeiladau, drwy weithio gyda'r sector preifat, fod ar gael i berchnogion tai am ddim.....Tudalen 45

Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog egluro a fydd strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd i gymryd camau mewn perthynas â newid hinsawdd yn arwain at gymryd camau uniongyrchol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r angen i leihau effaith cartrefi Cymru ar yr hinsawdd, a sut y bydd yn gwneud hynny.Tudalen 45

Argymhelliad 24. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod y Perfformiad Tai Carbon Sero Net ar gael i bob deiliadaeth cyn gynted ag y caiff ei sefydlu.Tudalen 45

Argymhelliad 25. Dylai'r Gweinidog egluro sut y mae'n bwriadu codi ymwybyddiaeth o berfformiad yr Hwb Perfformiad Tai Carbon Sero Net ymhlith rhanddeiliaid a pherchnogion eiddo gyda golwg ar sicrhau y gallant fanteisio'n llawn ar y gwasanaethau cyngor a chymorth sydd ar gael.Tudalen 45

Argymhelliad 26. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei Chynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net erbyn mis Mawrth 2023 fan bellaf. Os nad yw mewn sefyllfa i wneud hynny, rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru egluro'r rheswm wrth ymateb i'r adroddiad hwn.Tudalen 48

Argymhelliad 27. Dylai'r Gweinidog, gan weithio gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, asesu ymarferoldeb defnyddio'r Dreth Gyngor a'r Dreth Trafodiadau Tir i gymell gwaith ôl-osod effeithlonrwydd ynni fel blaenoriaeth. Rhaid i'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, a phob chwe mis wedi hynny, nes bod y gwaith hwn wedi'i gwblhau.Tudalen 58

Argymhelliad 28. Dylai'r Gweinidog gyflymu'r gwaith i ddatblygu cynigion ar gyfer y datrysiadau ariannol a ganlyn ar gyfer y sector 'gallu talu': Ynni Glân a Asesir fesul Eiddo/Cyllid Cysylltiedig ag Eiddo; benthyciadau dim llog/llog isel; a benthyciadau rhyddhau ecwiti. Dylai hi adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, a phob chwe mis wedi hynny, nes bod y gwaith hwn wedi'i gwblhau.Tudalen 58

Argymhelliad 29. Dylai'r Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion am y cynnig cyllid hybrid sy'n deillio o waith Banc Datblygu Cymru a Nesta. Dylai hyn gynnwys dyddiad targed ar gyfer cyflwyno ar draws y sector.Tudalen 59

1. Cyflwyniad

1. Ar ddechrau'r Chwchedd Senedd, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad aml-gam ar ddatgarboneiddio tai yng Nghymru.
2. Yn ystod cam cyntaf ein hymchwiliad, fe wnaethom ni edrych ar y cynnydd a wnaed tuag at ôl-osod tai ar draws deiliadaethau. Fel pwynt cyfeirio, fe wnaethom ni ddefnyddio'r argymhellion a wnaed gan y Grŵp Cynghori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru yn ei adroddiad **Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell** (Gorffennaf 2019). Ein nod oedd canfod meysydd blaenoriaeth i'w hystyried yn fanylach yn ystod ail gam ein hymchwiliad.
3. Dan arweiniad **tystiolaeth** gan amrywiaeth o randdeiliaid, fe wnaethom ni nodi'r blaenoriaethau a ganlyn ar gyfer yr ail gam: ariannu gwaith ôl-osod, datblygu sgiliau a'r gadwyn gyflenwi, a chartrefi mewn perchnogaeth breifat. Fe wnaethom ni gytuno i ddechrau gydag ymchwiliad ar yr olaf o'r rhain.

Cylch gorchwyl

4. Cylch gorchwyl ein gwaith oedd:

Ystyried—

- y dull presennol o ddatgarboneiddio tai yn y sector rhentu preifat a'r sector perchen-feddianwyr yng Nghymru, gan gynnwys effeithiolrwydd rhaglenni presennol a chymorth ar gyfer ôl-osod;
- rôl targedau ôl-osod sy'n benodol i'r sector i helpu i ysgogi newid;
- y camau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i fwrw ymlaen â rhaglen ôl-osod ar gyfer y sectorau hyn yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor;
- y prif heriau sy'n gysylltiedig â darparu rhaglen ôl-osod yn y sectorau hyn, gan gynnwys heriau ariannol, ymarferol ac ymddygiadol, a'r camau y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru (a'i phartneriaid) eu cymryd i'w goresgyn;
- sut y gellir taro'r cydbwysedd cywir rhwng dylanwadu/cymell perchnogion tai a landlordiaid yn y sector preifat i ôl-osod eu heiddo a rheoleiddio i godi safonau i ysgogi cynnydd;

- effeithiolrwydd y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i geisio dylanwadu ar benderfyniadau ar faterion a gedwir yn ôl i gefnogi'r gwaith o ddatgarboneiddio'r sectorau hyn.

Ein dull ni

5. Cynhaliwyd ein hymgyngghoriad cyhoeddus yn ystod haf 2022 a daeth **33 o gyflwyniadau ysgrifenedig** i law.

6. Fe gynhaliom ni sesiynau tystiolaeth lafar gydag ystod o randdeiliaid yn ein cyfarfodydd ar 5 a 20 Hydref 2022. Cafwyd tystiolaeth hefyd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn ein cyfarfod ar 7 Rhagfyr 2022. Mae rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar i'w gweld yn Atodiad 1.

7. Fe wnaethom ni gomisiynu Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion Senedd Cymru i gynnal cyfweiliadau â landlordiaid preifat a pherchnogion tai ar ein rhan. Mae **canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu** wedi helpu i lywio'r adroddiad hwn.

8. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith.

2. Y farn ar y cynnydd hyd yn hyn

9. Mae 1.4 miliwn o gartrefi Cymru yn cyfrif am 11 y cant o gyfanswm ei hallyriadau carbon. Rhagwelir y bydd mwy na 90 y cant o gartrefi presennol yn parhau i gael eu defnyddio erbyn 2050. Os yw Cymru am gyrraedd ei thargedau lleihau allyriadau carbon, bydd angen ôl-osod y cartrefi hyn i wella effeithlonrwydd ynni a galluogi'r newid i wresogi carbon isel.

10. Mae cyflwr y stoc dai bresennol, nifer y cartrefi hŷn, effeithlonrwydd ynni gwael, a lefelau uchel o dlodi tanwydd yn golygu bod hon yn her enfawr – yn bennaf oll i'r sector preifat, sy'n cyfrif am dros 80 y cant o gyfanswm y stoc dai.

2017 – Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen cynyddu gweithgarwch ôl-osod

11. Yn ei datganiad ym mis Tachwedd 2017, cydnabu Llywodraeth Cymru fod angen cynyddu graddfa a chyfradd y gwaith ôl-osod effeithlonrwydd ynni preswyl, gan gynnwys yn y sector preifat, fel rhan o'i dull o ddatgarboneiddio cartrefi Cymru. Ymrwymodd i wella'i sylfaen dystiolaeth i dargedu gweithgarwch a gwariant yn well y tu hwnt i 2020, a deall yn well sut i ysgogi a sbarduno'r sector sy'n 'gallu talu' i weithredu.

2018 – Llywodraeth Cymru yn comisiynu dadansoddiad gan Ysgol Pensaernïaeth Cymru

12. Ym mis Mawrth 2018, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Ysgol Pensaernïaeth Cymru i nodi 'beth sy'n gweithio' mewn perthynas â datgarboneiddio tai, gan ddefnyddio astudiaethau achos a llenyddiaeth gyhoeddedig, ac i ddeall i ba raddau y gallai natur stoc dai bresennol Cymru lywio datblygiad llwybr at ddatgarboneiddio. Cyhoeddwyd adroddiadau Ysgol Pensaernïaeth Cymru ym mis Hydref 2018 a mis Gorffennaf 2019 yn y drefn honno.¹

2018 – Llywodraeth Cymru yn sefydlu'r Grŵp Cyngori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru

13. Yng ngwanwyn 2018, sefydlodd Llywodraeth Cymru y Grŵp Cyngori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru ('y Grŵp Cyngori'), dan gadeiryddiaeth Chris Jofeh, i roi cyngor ar sut i ddatgarboneiddio'r stoc dai bresennol. Ym mis

¹ Yn 2020, cyhoeddodd Ysgol Pensaernïaeth Cymru drydydd adroddiad yn canolbwyntio ar ddatgarboneiddio tai cymdeithasol.

Gorffennaf 2019, cyhoeddodd y Grŵp Cyngori ei adroddiad **Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell** ('Adroddiad Jofeh'), a oedd yn cynnwys saith argymhelliad 'lefel uchel' a 24 o gamau gweithredu cysylltiedig.

14. Wrth **ymateb** i Adroddiad Jofeh, dywedodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Thai ar y pryd, Julie James AS, "ychydig iawn o bethau annisgwyl a geir am yr hyn y mae angen i ni ei wneud, y brys, y raddfa a'r costau, ond mae ei ddarllen yn ddigon i'ch sobri.". Ychwanegodd, "Ni allwn ni aros nes bydd yr holl atebion gennym ni nac ychwaith nes bydd yr adnoddau gennym ni ... Yr hyn a wyddom ni yw bod diffyg gweithredu yn peri peryglon llawer mwy. Felly, er gwaethaf yr holl beryglon ac ansicrwydd, rwyf wedi penderfynu derbyn yr holl argymhellion yn yr adroddiad mewn egwyddor.".

2020 - Llywodraeth Cymru yn lansio 'Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio'

15. Ym mis Awst 2020, lansiodd Llywodraeth Cymru y '**Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio**' ('ORP'), wedi'i hanelu at y sector tai cymdeithasol, er mwyn "profi dull newydd o ddatgarboneiddio cartrefi yng Nghymru, yn seiliedig ar argymhellion Adroddiad Jofeh".² Yn ôl Llywodraeth Cymru, bydd dysgu o'r rhaglen hon yn darparu "sail dystiolaeth gadarn i ddatblygu ein strategaeth ôl-osod dymor hwy".³

Yr hyn a ddywedodd rhanddeiliaid wrthym am y cynnydd

16. Roedd consensws eang ymhlith rhanddeiliaid bod dull Llywodraeth Cymru o ddatgarboneiddio'r sector preifat, hyd yma, wedi bod yn annigonol ac yn aneffeithiol. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith, er bod cartrefi mewn perchnogaeth breifat yn cyfrif am y mwyafrif o stoc dai Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis canolbwyntio ei hymdrechion bron yn llwyr ar dai cymdeithasol drwy ORP. Roedd teimlad bod hyn wedi dod ar draul cynnydd yn y sector preifat, gydag ychydig neu ddim gwaith yn cael ei wneud i baratoi'r sector i ddatgarboneiddio.

17. Fe wnaeth y Sefydliad Tai Siartredig grynhoi'r teimlad ymhlith rhanddeiliaid, gan nodi fod neb yn sôn am dai preifat, ond bod angen mynd i'r afael â'r mater os yw tai am chwarae eu rhan i gyrraedd y targed o DU sero-net erbyn 2050. Dywedodd mai cymell ac ariannu datgarboneiddio tai preifat yw'r unig ffordd o gael effaith wirioneddol ar y farchnad (sgiliau, cadwyni cyflenwi, cost, technoleg)

² Llywodraeth Cymru **Datganiad Ysgrifenedig: Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio 2020-21, Tachwedd 2020**

³ Llywodraeth Cymru, **Cymru Sero Net Cyllideb Carbon 2 (2021-25)**, Hydref 2022

ar y cyflymder a'r raddfa sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r uchelgais y mae pawb yn ei rhannu.⁴

18. Mynegodd rhanddeiliaid siom ynghylch diffyg cyfranogiad y sector rhentu preifat yn ORP hyd yma. Dywedodd Chris Jofeh fod cynnwys y sector rhentu preifat yn ORP 2⁵ yn rhywbeth a drafodwyd, ond gollyngwyd y syniad. Ar yr adeg pan gymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig i lywio ei waith, nid oedd manylion ORP 3 ar gael. Fodd bynnag, ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Ganllawiau ar ORP 3**, sy'n amlinellu ei bwriad i "ymestyn ein dull ôl-osod ar gyfer optimeiddio y tu hwnt i gartrefi cymdeithasol, i'r sector rhentu preifat ac yn y pen draw cartrefi â pherchennog wrth i ORP 3 fynd yn ei flaen". Dywedodd Chris Jofeh wrth y Pwyllgor yr anogwyd Llywodraeth Cymru i gynnwys landlordiaid preifat yn ORP 3 ac, unwaith eto, ni wnaeth hynny. Dywedodd fod hyn yn golli cyfle mawr.⁶

19. Roedd dystiolaeth yn awgrymu'n gryf na all Llywodraeth Cymru fforddio aros tan ganlyniad y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio i gymryd camau yn y sector preifat. Dywedodd Chris Jofeh fod cymaint y gellir ei wneud nawr ochr yn ochr ag ORP fel bod y gwaith paratoi ar gyfer y sector preifat wedi'i wneud, a gellir defnyddio'r gwersi wedyn.⁷ Mynegodd Dr Donal Brown farn debyg. Dywedodd:

*"... let's not make the perfect the enemy of the good... We don't have to have all of the parts fixed and ready, but let's start talking this up and actually get going with it. We don't have to have worked out everything behind the scenes before we can actually start doing stuff... we don't have time for 'wait and see' ... there's a lot we can be getting on with, particularly around the message, particularly around the conversation with the nation."*⁸

Mae diffyg strategaeth glir yn atal cynnydd

20. Er y cydnabu'r rhanddeiliaid yr ymrwymadau a wnaed yn Cymru Sero Net⁹, roeddent yn pwysleisio'r angen am strategaeth hirdymor a/neu gynllun ar gyfer

⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 07

⁵ Mae'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn rhaglen aml-gam. Roedd Cam 1 ORP (ORP 1) yn rhedeg yn ystod 2020-21 (ORP 1) a Cham 2 (ORP 2) yn ystod 2021-22. Mae ORP yng Ngham 3 ar hyn o bryd (ORP 3), sy'n rhedeg yn ystod 2022-23.

⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 52, 5 Hydref 2022

⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 46, 5 Hydref 2022

⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 50, 5 Hydref 2022

⁹ Mae Cyllideb Carbon Sero Net Cymru 2 (2021-25) yn nodi gweledigaeth, datganiadau uchelgais a pholisïau Llywodraeth Cymru (Polisïau 43-50) a chynigion (Cynigion 5-8) mewn perthynas â datgarboneiddio tai.

datgarboneiddio'r sector tai, yn anad dim i anfon neges glir i ddefnyddwyr a'r diwydiant am gyfeiriad y gwaith. Byddai hyn yn helpu i ysgogi ymddygiad y farchnad.

21. Dywedodd Chris Jofeh fod yn bendant angen strategaeth gyffredinol sy'n gynhwysfawr ac yn hirdymor. Dywedodd mai ei farn oedd bod angen iddi fod yn un drawsbleidiol a hirsefydlog, a bod pobl yn ymddiried ynddi i fod yn hirsefydlog.¹⁰ Adleisiodd Dr Donal Brown hyn. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

*"I think the question you get asked a lot is, 'What is the one thing we need to do?' ... I suppose if there was one message, it is that long-term plan, providing certainty to the public and providing certainty to industry that this is the direction of travel. We have to transform our housing stock, we have a relatively small amount of time to do that, and therefore Government needs to be making the right signals and putting in long-term permanent changes..."*¹¹

22. Galwodd UKGBC, Robert Chapman (Ymarferydd Eiddo Strategol Annibynnol ac Ymarferydd Adfywio), y Panel Arbenigwyr Tai a'r Sefydliad Tai Siartredig am 'Strategaeth Ôl-osod Genedlaethol'. Fodd bynnag, roedd Andy Regan (Nesta) yn cwestiynu a yw strategaeth newydd, hirdymor yn angenrheidiol. Credai, rhyngddynt, fod adroddiad y Grŵp Cynghori, ORP, a strategaeth wres arfaethedig Llywodraeth Cymru yn cynnig yr holl sylfeini.¹² Dywedodd y byddai'n well ganddo weithredu na threulio amser ar ddatblygu strategaeth.¹³

23. Yn ei **hymateb i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, sef Tlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd** (Gorffennaf 2022), dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn "datblygu strategaeth a chynllun cyflawni cynhwysfawr [ar gyfer datgarboneiddio] sy'n ymgorffori gwaith ar draws deiliadaethau tai". Mae'r dystiolaeth a gawsom gan randdeiliaid, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, yn awgrymu nad ydynt yn ymwybodol o waith i ddatblygu'r rhain.

Rôl targedau o ran ysgogi newid

24. Argymhellodd y Grŵp Cynghori y dylai pob cartref yng Nghymru gael ei godi i Fand A EPC erbyn 2050, er ei fod yn cydnabod na fyddai'n bosibl i rai cartrefi

¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 5 Hydref 2022

¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 9, 5 Hydref 2022

¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 217, 5 Hydref 2022

¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 217, 5 Hydref 2022

gyflawni hyn. Dyma'r targed cyffredinol y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag ato ar gyfer y sector preifat.

25. Dywedodd RICS nad oes gan Gymru darged gwleidyddol pendant ar gyfer datgarboneiddio tai preifat. Dywedodd fod Sero Net Cymru yn amlinellu rhaglen uchelgeisiol o weithgarwch yn y sector preswyl, ond mai mater i'r sector tai cymdeithasol ac adeiladau newydd yw'r targedau eu hunain ar gyfer ôl-osod a pherfformiad ynni.¹⁴ Yn eu hadroddiad, **Cartrefi Addas ar gyfer y Dyfodol: Yr Her Ôl-ffitio** (Gorffennaf 2021), dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (FGC) a'r Sefydliad Economeg Newydd "mae 1.1 miliwn (neu 70%) o stoc dai Cymru yn dod o dan y sector perchen-feddianwyr neu'r sector rhentu preifat sydd heb dargedau ar hyn o bryd (neu sydd â thargedau gwan iawn)".

26. Roedd consensws eang bod angen targedau i helpu i lywio newid yn y sector preifat. Dywedodd Chris Jofeh y dylai Llywodraeth Cymru osod targedau gorfodol hirdymor penodol, mewn ffordd sy'n cael ei chydabod gan brynwyr, gyda methiant i gydymffurfio yn atal trafodion pellach, gwerthu neu rentu, o'r eiddo.¹⁵

27. Cynigiodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Sefydliad Economeg Newydd darged interim 'C' EPC (neu gyfwerth) ar gyfer pob cartref erbyn 2030, gan gynnwys y rhai mewn perchnogaeth breifat. Roeddent hefyd yn ffafrio targedau gorfodol/statudol, gyda MEES yn eu gorfodi.

28. Roedd Sero yn cefnogi targedau penodol i sectorau, yn ddarostyngedig i rai amodau, gan gynnwys nad yw'r metrig sylfaenol a ddefnyddir yn benodol i ddeiliadaeth a bod metrigau llwyddiant y targedau ar gyfer datgarboneiddio yn cyd-fynd ar draws pob deiliadaeth/sector, hyd yn oed os nad yw'r amserlenni targed yn gwneud hynny. Dywedodd fod targedau penodol i sectorau yn gyfle i gyflymu'r broses o ôl-osod cartrefi, ac wrth wneud hynny'n galluogi'r gadwyn gyflenwi i ymgyswrtio â'r mesurau ôl-osod angenrheidiol.¹⁶

29. Rhybuddiodd Gavin Dick o NRLA na ddylid mabwysiadu targedau penodol i sectorau oherwydd bod targed gwahanol mewn gwahanol ddeiliadaethau yn creu mwy o ddryswch. Dywedodd, os ydym yn ceisio cyrraedd yr un nod, mae cael yr un targedau ar draws pob deiliadaeth yn gwneud pethau'n llawer haws oherwydd gall eiddo newid deiliadaeth.¹⁷

30. Dywedodd y Sefydliad Tai Siartredig y gallai targedau fod yn ffordd o symud gwahanol ddeiliadaethau i wahanol safleoedd ar hyd y llinell amser hyd at 2050.

¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 28

¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 5

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 15

¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 217, 20 Hydref 2022

Fodd bynnag, heb strategaeth hirdymor a mecanweithiau cyflawni addas, mae cyflwyno targedau yn 'ymarfer dibwynt'.¹⁸ Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan UK Finance, NRLA a Propertymark.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

31. Yn ei **Llythyr at y Pwyllgor** ym mis Ebrill 2022, eglurodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ymdrechion ar y sector tai cymdeithasol gan mai dyma lle mae'n "gallu gosod cyfeiriad a dylanwadu orau". Dywedodd, "drwy gyfeirio buddsoddiadau'r Rhaglen drwy landlordiaid cymdeithasol, gellir cefnogi dull 'profi a dysgu' o ran sut i ddatgarboneiddio cartrefi", a "bydd modd dechrau'r gwaith o ddatgarboneiddio cartrefi mewn deiliadaethau eraill erbyn 2023".

32. Eglurodd y Gweinidog fod y sefyllfa bresennol o lai o weithgarwch yn y sector rhentu preifat a'r sector perchen-feddianwyr yn adlewyrchu'r dull o ddechrau mewn tai cymdeithasol cyn symud i ddeiliadaethau eraill. Eglurodd hefyd:

"we've begun to take action with privately owned homes, but not at the scale of the social sector yet, because we're just not ready. The workforce supply chains are not ready yet to do that. But, I'm absolutely confident that the steps we are taking into the privately owned spheres are the right ones and that we're starting from the right place to be able to do this in a coherent, programme sort of way".¹⁹

33. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod ORP 3 yn pwysleisio'n frwd yr ymrwymiad i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol gefnogi ymyrraeth mewn deiliadaethau cymysg, ac, o ganlyniad, mae yna geisiadau grant sy'n cyfuno prosiectau cymdeithasol a pherchen-feddianwyr o bob rhan o Gymru.²⁰

Dywedodd y dechreuwyd y gwaith yn fwriadol yn y sector rhentu cymdeithaso er mwyn rhoi'r gwersi am ORP ar waith a rhoi cyfrif priodol amdanynt, a dywedodd fod gwaith yn mynd rhagddo ar yr ysgogiadau ar gyfer y sector rhentu preifat.²¹

34. Rhoddodd y Gweinidog a'i swyddogion grynodedb o'r hyn a ddysgwyd o'r ORP hyd yma. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod y llwybrau ar waith, y bydd Hwb Perfformiad Sero Net Cymru ar waith, a bod y gwerthusiad ar waith. Dywedodd fod y cynnydd yn mynd yn ei flaen o ran gallu dysgu o'r ORP.²²

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 7

¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 203, 7 Rhagfyr 2022

²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 283, 7 Rhagfyr 2022

²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 269, 7 Rhagfyr 2022

²² Cofnod y Trafodion, paragraff 272, 7 Rhagfyr 2022

35. Pan ofynnwyd iddi egluro a yw'n bwriadu cyhoeddi strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datgarboneiddio tai (fel yr awgrymwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldebau a Chyfiawnder Cymdeithasol), dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

"Er bod ein bwriad strategol wedi'i fynegi yn ein Cyllideb Carbon 2 (2021-25) Sero Net Cymru sy'n nodi ein gweledigaeth, ein huchelgais a'n polisiau a chynigion (Polisiau 43-50 a Chynigion 5-8), rydyn ni'n cydnabod bod angen mwy o fanylder a map ffordd ar gyfer ei rhoi ar waith..

*Er bod ein bwriad strategol wedi'i fynegi yn ein Cyllideb Carbon 2 (2021-25) Sero Net Cymru sy'n nodi ein gweledigaeth, ein huchelgais a'n polisiau a chynigion (Polisiau 43-50 a Chynigion 5-8), rydyn ni'n cydnabod bod angen mwy o fanylder a map ffordd ar gyfer ei rhoi ar waith."*²³

36. Ychwanegodd fod swyddogion wrthi'n "cynnal ymarfer cwmpasu ar y gwaith hwn ac yn ystyried sut orau i ddatblygu map ffordd ar gyfer datgarboneiddio tai preswyl, gan gydbwyso'r angen hwn â'r ystod o ddisgwyliadau sy'n gysylltiedig â rhaglenni fel y Rhaglen ôl-osod er mwyn Optimeiddio ac ehangu i'r PRS trwy alinio'r ORP â'r Cynllun Lesio Cartrefi". Dywedodd y Gweinidog hefyd y bydd swyddogion yn gweithio gyda'r Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio (dan gadeiryddiaeth Chris Jofeh) "i ffurfio grŵp arall o randdeiliaid i drafod blaenoriaethau'r map ffordd ar gyfer rhan gyntaf 2023". Ymrwymodd i rannu llinellau amser ac amserlen gyhoeddi gyda'r Pwyllgor unwaith y bydd y rhain wedi'u cadarnhau.²⁴

Ein barn ni

Ers cyflwyno targedau newid hinsawdd statudol dros ddegawd yn ôl, cafwyd gwaith ymchwil, dadansoddiad a mewnwleidiad helaeth gan ystod eang o arbenigwyr yn edrych ar sut i leihau allyriadau carbon o'n cartrefi presennol. Yng Nghymru, rhoddodd adroddiad Jofeh sylfaen gadarn i Lywodraeth Cymru adeiladu ei dull gweithredu arni. Er y bu peth cynnydd tuag at weithredu argymhellion yr adroddiad, mae wedi'i gyfyngu'n bennaf i'r sector tai

²³ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 10 Tachwedd 2022

²⁴ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 10 Tachwedd 2022

cymdeithasol. Roedd ymdeimlad cryf gan randdeiliaid bod y sector perchnogaeth breifat yn cael ei adael ar ôl.

Cynllun hirdymor cynhwysfawr, gyda cherrig milltir a thargedau polisi allweddol

Mae lleihau effaith yr 1.1 miliwn o gartrefi preifat yng Nghymru ar yr hinsawdd, yn sicr yn her aruthrol, ac mae angen goresgyn ystod o rwystrau ariannol ac anariannol. Ond mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wynebu'r her hon, ac ni all fforddio aros mwyach i weithredu.

Mae angen i Lywodraeth Cymru ddarparu cyfeiriad strategol cryfach i helpu i ysgogi cynnydd yn y sector preifat. Yn absenoldeb strategaeth hirdymor ar gyfer datgarboneiddio tai, a chyda pholisïau a rhaglenni cadarn i gefnogi'r sector i ddatgarboneiddio sydd eto i'w dwyn ymlaen gan Lywodraeth Cymru, mae perchnogion eiddo a diwydiant yn cael trafferth gwybod a ddylid gweithredu, a sut a phryd y gallant chwarae eu rhan orau. Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â hyn fel blaenoriaeth.

Er ei bod wedi hysbysu'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol fod Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth a chynllun cyflawni cynhwysfawr, mae tystiolaeth y Gweinidog i ni yn awgrymu nad yw hyn o bosibl yn wir ac mai dim ond cynllun sy'n cael ei ddatblygu. Os nad yw'r Gweinidog yn bwriadu datblygu a chyhoeddi strategaeth, dylai egluro'r newid yn y sefyllfa ers ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Rydym yn nodi ymrwymiad y Gweinidog i gyhoeddi cynllun cyflawni ar gyfer gweithredu polisïau a chynigion i ddatgarboneiddio'r sector a nodir yn Sero Net Cymru. Mae posibilrwydd i hyn helpu i wella tryloywder a hwyluso a chefnogi gwaith craffu. Rydym yn disgwyl i'r cynllun gynnwys cerrig milltir a thargedau interim allweddol ar gyfer y sector preifat.

Nodwn y bydd y cynllun yn cael ei lywio gan yr hyn a ddysgir o'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, a fydd yn rhedeg tan o leiaf 2025. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r cynllun fod ymhell i ffwrdd o hyd, sy'n peri pryder o ystyried yr angen i gynyddu graddfa a chyflymder gweithgarwch ôl-osod yn y sector. Rydym yn disgwyl i'r Gweinidog adrodd yn ôl inni ar y cynnydd tuag at ddatblygu'r cynllun chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn fan bellaf, ac ymrwymo i ddarparu adroddiadau cynnydd bob chwe mis wedi hynny.

Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio

Ers cyhoeddi adroddiad Jofeh, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu ei dull ôl-osod er mwyn optimeiddio ar gyfer datgarboneiddio yn y sector tai cymdeithasol. Er ein bod yn cydnabod y rhesymeg dros hyn, gwelwyd yn glir mewn tystiolaeth bod camau y gall Llywodraeth Cymru fod yn eu cymryd yn awr, ac y dylai fod yn eu cymryd, i baratoi i ddatgarboneiddio'r 1.1 miliwn o gartrefi sy'n weddill yng Nghymru. Rydym yn archwilio'r rhain mewn penodau diweddarach.

O'r hyn a wyddom am yr ORP, ar lawer ystyr, mae'n gosod esiampl ac yn dangos y potensial i helpu i gefnogi deiliadaethau eraill i ddatgarboneiddio. Fodd bynnag, prin yw'r wybodaeth sydd ar gael am y gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen hyd yma. Mae awydd clir ymhlith rhanddeiliaid nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ORP i gael dealltwriaeth well o'r gwersi a ddysgwyd fel y gallant ddechrau eu rhoi ar waith. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad interim ar ddysgu o gyfnodau cynharach y rhaglen cyn gynted â phosibl.

Rydym yn siomedig bod y Gweinidog wedi dewis peidio â chynnwys y sector rhentu preifat yng Nghyfnod 3 o'r ORP o'r cychwyn cyntaf, fel y gofynnwyd amdano gan randdeiliaid. Rydym yn nodi'r bwriad i "ymestyn ein dull ôl-osod ar gyfer optimeiddio... i'r sector rhentu preifat ac yn y pen draw cartrefi â pherchennog wrth i ORP 3 fynd yn ei flaen". Rydym yn ceisio eglurhad gan y Gweinidog ynghylch sut a phryd y bydd hyn yn cael ei symud yn ei flaen.

Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu cyfeiriad strategol mwy eglur a chryf i'r diwydiant ac i weithredwyr eraill i helpu i ysgogi cynnydd tuag at ddatgarboneiddio cartrefi presennol Cymru.

Argymhelliad 2. Os nad yw'r Gweinidog yn bwriadu datblygu a chyhoeddi strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datgarboneiddio tai, dylai egluro'r newid yn y sefyllfa ers ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Argymhelliad 3. Rhaid i gynllun cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio tai gynnwys cerrig milltir a thargedau interim allweddol ar gyfer y sector preifat.

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd tuag at ddatblygu'r cynllun cyflawni erbyn chwe mis fan bellaf ar ôl cyhoeddi'r adroddiad

hwn. Dylai hi hefyd ymrwymo i ddarparu adroddiadau cynnydd bob chwe mis wedi hynny.

Argymhelliad 5. Rhaid i'r Gweinidog gyhoeddi adroddiad interim ar ganfyddiadau'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio hyd yma.

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog egluro pam y dewisodd hi beidio â chynnwys y sector rhentu preifat o ddechrau Cyfnod 3 y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Rhaid iddi hefyd esbonio sut a phryd y bydd y dull ôl-osod er mwyn optimeiddio yn cael ei "ymestyn" i gartrefi'r sector rhentu preifat a chartrefi â pherchennog.

3. Gwneud y gorau o gynlluniau effeithlonrwydd ynni presennol?

37. Mae gan gynlluniau effeithlonrwydd ynni ran hanfodol i'w chwarae o ran lleihau allyriadau carbon o'n tai. Mae cartrefi mwy effeithlon o ran ynni yn cynhyrchu llai o allyriadau - drwy leihau'r galw am ynni rydym yn lleihau faint o danwydd ffosil sy'n cael ei losgi i gynhyrchu ynni.

38. Cyfeiriodd rhanddeiliaid at sawl cynllun sy'n cefnogi mesurau effeithlonrwydd ynni yn y sector preifat, gan gynnwys y **Rhaglen Cartrefi Clyd**, y **Cynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni** a'r **Cynllun Uwchraddio Boeleri**.

39. Roedd consensws eang bod y cymorth presennol yn dameidiog. Dywedodd Dr Donal Brown, wrth edrych ar y Rhaglen Cartrefi Clyd a chyllid effeithlonrwydd ynni yn gyffredinol, fod pethau yn dameidiog. Dywedodd fod gwahanol gronfeydd o arian ar gael at ddibenion gwahanol, ac nad yw'r ffynonellau cyllid hyn yn cael eu tynnu at ei gilydd mewn ffordd integredig i ddatrys problemau i bobl. Dywedodd fod y dull gweithredu'n un gwasgaredig iawn. Mynegwyd barn debyg gan y Panel Arbenigwyr Tai a'r Sefydliad Tai Siartredig.

Y Rhaglen Cartrefi Clyd

40. Ers ei sefydlu, mae'r Rhaglen Cartrefi Clyd²⁵ wedi bod yn destun gwaith craffu sylweddol, gan gynnwys gan Archwilio Cymru²⁶, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Bumed Senedd²⁷ a Phwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Chweched Senedd²⁸. Er bod buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud drwy gydol oes y Rhaglen Cartrefi Clyd, mae wedi cael ei beirniadu am fethu â chyflawni yn ddigon helaeth a chyflym. Mae'r beirniadaethau penodol yn cynnwys: rhwystrau rhag mynediad i'r sector rhentu preifat, meini prawf cymhwysedd llym, capiau costau mympwyol, a diffyg aliniad â blaenoriaethau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru. Fe wnaeth rhanddeiliaid ailadrodd y beirniadaethau hyn yn eu tystiolaeth i ni.

²⁵ Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yw ei phrif fecanwaith ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd, gan ddarparu mesurau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim i aelwydydd incwm isel ac agored i niwed sy'n byw mewn tlodi tanwydd a chynghor diduedd am ddim i bob aelwyd. Mae'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn cynnwys dau gynllun, sef Nyth ac Arbed, ond daeth Arbed i ben ym mis Tachwedd 2021. Mae cynllun presennol Nyth i fod i ddod i ben ym mis Mawrth 2023.

²⁶ **Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru** (Tachwedd 2021), Archwilio Cymru

²⁷ **Tlodi Tanwydd yng Nghymru** (Ebrill 2020), Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Bumed Senedd

²⁸ **Tlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd** (Mawrth 2022), y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

- 41.** Fe wnaeth Sero grynhoi'r teimlad cyffredinol ymhlith rhanddeiliaid, gan nodi:

"Whilst Wales' schemes [Nyth ac Arbed] have largely been commendable in their intent to tackle those at greatest risk of [fuel] poverty, the schemes overall have not delivered at the scale that is urgently required or with the genuine impact on measured carbon emission reductions. Furthermore, with limited coordination between all the Welsh and UK government initiatives, there has been significant opportunity for confusion.

*In short, there is much opportunity for Wales to provide an enlarged, coordinated, and clearer programme in the future, building from valuable lessons learnt from past efforts."*²⁹

- 42.** Ym mis Rhagfyr 2021, cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgyngoriad** ar gynigion ar gyfer yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd.

Rhwymedigaeth Cwmni Ynni

- 43.** Mae'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO) yn gynllun Prydain gyfan i helpu i leihau allyriadau carbon a threchgu tlodi tanwydd. O dan y Rhwymedigaeth, mae cyflenwyr ynni o faint canolig a mwy yn ariannu'r broses o osod mesurau effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi ym Mhrydain.

- 44.** Mae'r cynllun presennol, ECO4, yn werth £4 biliwn dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r cynllun yn darparu llwybr i awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan atgyfeirio cartrefi am gymorth (a elwir yn 'ECO4 Flex'). Am y tro cyntaf, gall Llywodraeth Cymru (a Llywodraeth yr Alban) gymryd rhan yn y cynllun a gwneud atgyfeiriadau.

- 45.** Dywedodd rhanddeiliaid fod y nifer, hyd yma, sy'n manteisio ar gyllid y Rhwymedigaeth yng Nghymru wedi bod yn isel. Mynegodd y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl Genedlaethol bryder nad yw awdurdodau yn ymgysylltu â'r cynllun yn effeithiol oherwydd diffyg capasiti ac adnoddau. Fe wnaeth rhagflaenydd y Pwyllgor yn y Bumed Senedd dynnu sylw at y materion hyn.³⁰

- 46.** Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni fod Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau gyda BEIS ynghylch a all Llywodraeth Cymru ddosbarthu cyfran Cymru o gyllid ECO. Ychwanegodd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, os nad yw hyn yn bosibl, fod yn rhaid rhoi'r cymorth sydd ei angen ar awdurdodau lleol i gael

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 15

³⁰ ~~Tlodi Tanwydd yng Nghymru~~ (Ebrill 2020), Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Bumed Senedd

mynediad effeithiol at ECO.³¹ Tynnodd sylw at ddull gweithredu Llywodraeth yr Alban fel arfer da, lle mae rheolwr ECO wedi helpu i gynyddu cyfran yr Alban o gyllid ECO drwy weithio gydag awdurdodau i gefnogi'u ceisiadau.

47. Awgrymodd Chris Jofeh y gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio model stoc adeiladau Cymru gyfan³² Sefydliad Ynni UCL i nodi aelwydydd sy'n gymwys ar gyfer cyllid ECO.

Cynllun Uwchraddio Boeleri

48. Mae **Cynllun Uwchraddio Boeleri** Llywodraeth y DU yn darparu cyllid grant i gartrefi cymwys dalu rhan o gost amnewid systemau gwresogi tanwydd ffosil gyda boeler biomas neu bwmp gwres.

49. Pwysleisiodd Nesta bwysigrwydd sicrhau nad yw Cymru'n colli allan ar gyllid o'r Cynllun Uwchraddio Boeleri o'i gymharu â'r Alban a Lloegr (fel y dadleuwyd mewn perthynas â chyllid ECO) ac awgrymodd fod gan Lywodraeth Cymru rôl i'w chwarae o ran cefnogi aelwydydd i wneud cais i'r cynllun.

50. Dywedodd Nesta wrth y Pwyllgor eu bod yn credu y "gallai rhwng chwarter a thraean cartrefi Cymru fod yn barod i gael pwmp gwres wedi'i osod heb unrhyw ôl-osod i'r ffabrig ymlaen llaw". Dywedodd fod "polisi clir yng Nghymru ar gyfer ymagwedd wedi'i thargedu at gynyddu mabwysiadu pwmp gwres mewn cartrefi preifat sydd wedi'u hinswleiddio'n dda. Dylai hyn fod yn ffocws ar gyfer y Strategaeth Gwres sydd i ddod".³³

51. Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid at rwystrau yn system gynllunio Cymru i fabwysiadu pypiau gwres. Mae'r canllawiau cynllunio presennol yn gwahardd gosod pwmp gwres o'r awyr o fewn 3m i ffin eiddo (o'i gymharu ag 1m yn Lloegr). Galwodd Chris Jofeh ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio ei chanllawiau cynllunio ar frys i ganiatáu pypiau gwres o'r awyr yn llawer agosach at ffin eiddo, neu ffenestr y gellir ei hagog, ar yr amod bod y meini prawf acwstig priodol yn cael eu bodloni.³⁴ Adleisiwyd hyn gan Nesta a RICS.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

52. Mewn **datganiad** i'r Cyfarfod Llawn ar 8 Tachwedd 2022, cadarnhaodd y Gweinidog ei bwriad i gyflwyno cynllun cenedlaethol yn seiliedig ar alw sy'n canolbwyntio ar gartrefi mewn tlodi tanwydd i gymryd lle y cynllun Nyth

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 25

³² 'Gefail digidol' cyfrifiadurol o'r holl adeiladau mewn ardal yw model stoc adeiladau.

³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 32

³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 5

presennol. Dywedodd y bydd y cynllun newydd yn “[c]anolbwyntio yn fwy ar ddatgarboneiddio”.

53. Pan ofynnwyd iddi egluro pryd y byddai'r cynllun newydd yn cael ei lansio, cyn y gaeaf nesaf oedd ateb y Gweinidog i'r Pwyllgor.³⁵

54. Yn ei **Ilythyr at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**, dyddiedig 1 Rhagfyr 2023, cyfeiriodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at “[d]datblygu dull datgarboneiddio drwy stociau tai cyfan, gan ddarparu dull hirdymor o ran effeithlonrwydd ynni, tloidi tanwydd a datgarboneiddio tai”. Dywedodd:

“Bydd yn helpu i ddiwallu anghenion y cyllidebau carbon presennol ac yn y dyfodol, gan hefyd integreiddio ag amcanion tai ehangach. Mae disgwyl i'r rhaglen newydd gefnogi'r sectorau cymdeithasol, perchen-feddiannaeth a rhentu preifat. Mae disgwyl iddi fod o fewn cyrraedd pawb, gan gynnwys y rhai yn y categori ‘gallu talu’, ond mae’n cynnwys pwyslais ar ariannu'r cartrefi gwaethaf yn gyntaf, gan gynnwys rhai mewn tloidi tanwydd.

Bydd y dull gweithredu yn cael ei ddatblygu drwy'r gwersi a ddysgwyd o'r Rhaglen Cartrefi Clyd a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, a bydd yn cyd-fynd â dulliau eraill Llywodraeth Cymru megis Safon Ansawdd Tai Cymru a Chynllunio Ynni Ardal Leol.

Gall gwaith ddechrau ar unwaith drwy ddatblygu'r mecanweithiau presennol i greu dull integredig o drosglwyddo i'r rhaglen newydd, sy'n cyd-fynd â setliad y gyllideb nesaf.”

55. O ran cyllid ECO, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraeth leol, ac eraill, i ddatblygu dull sy'n cynyddu cyfranogiad awdurdodau lleol yn ECO4 ac yn gwneud hyn yn ddeniadol i gyflenwyr ynni ar yr un pryd. Ychwanegodd:

“There's a collaborative approach being developed to set the qualifying criteria, encourage greater participation and maximise opportunities for lower income households who are most in need of support. That includes the development of a template Welsh ECO Flex statement of intent, as it's called, to

³⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 216, 7 Rhagfyr 2022

help local authorities to align national and local requirements to the ECO Flex scheme."³⁶

Ein barn ni

Y Rhaglen Cartrefi Clyd a thu hwnt

Mae adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, **Tlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd** (Mai 2022), yn gwneud cyfres o argymhellion i lywio iteriad nesaf y rhaglen. O ystyried hyn, rydym wedi dewis peidio â thrafod y Rhaglen Cartrefi Clyd yn fanwl. Nid oes barn bendant ar hyn o bryd ynghylch cyfraniad posibl y cynllun newydd o ran datgarboneiddio cartrefi preifat Cymru.

Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd i'w gyhoeddi ar ôl haf 2022. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw ar gael o hyd. Mae'r oedi parhaus cyn cyhoeddi yn peri cryn rwystredigaeth i ni, ac nid yw hyn yn argoeli'n dda ar gyfer lansio'r cynllun Nyth newydd yn brydlon. Rydym yn disgwyl i'r ymateb gael ei gyhoeddi erbyn mis Mawrth 2023 fan bellaf. Rhaid iddo ddarparu rhagor o fanylion am y cynllun newydd, gan gynnwys meini prawf cymhwysedd, capiau cost a mesurau ôl-osod effeithlonrwydd ynni.

Bydd y cynllun Nyth presennol yn dod i ben fis nesaf (Mawrth 2023), gyda'r cynllun newydd yn cael ei lansio cyn y gaeaf nesaf. Nid yw'n glir a yw'r Gweinidog yn bwriadu llenwi'r bwlch yn y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod hwn, na sut y bydd yn gwneud hynny. Rydym yn disgwyl iddi roi sylw i'r mater hwn. At hynny, o ystyried yr argyfwng tldi tanwydd presennol a'r angen i gynyddu gweithgarwch ôl-osod, credwn y dylai Llywodraeth Cymru lansio'r cynllun newydd yn gynnar.

Fel y crybwyllwyd, roedd llythyr y Gweinidog at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn cyfeirio at ddatblygu rhaglen newydd i gefnogi'r broses o ddatgarboneiddio tai, y disgwylir iddi fod yn hygyrch i bawb, gan gynnwys y rheini yn y sector 'gallu talu'. Mae hwn yn ddatblygiad arwyddocaol. Rydym yn synnu bod y Gweinidog wedi methu â darparu manylion y rhaglen yn ei thystiolaeth i ni, o ystyried ei pherthnasedd i'n gwaith. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion gan y Gweinidog am y rhaglen newydd arfaethedig, gan

³⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 285, 7 Rhagfyr 2022

gynnwys pryd y caiff ei lansio, sut y bydd yn cefnogi'r sector 'gallu talu', a buddsoddiad dangosol ar gyfer cyflwyno'r rhaglen dros y tair blynedd nesaf.

Cyllid ECO

Yn ei adroddiad, Tlodi tanwydd yng Nghymru (Ebrill 2020), galwodd y pwyllgor a oedd yn ein rhagflaenu ar Lywodraeth Cymru i sefydlu mecanwaith cymorth addas i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu manteisio'n llawn ar gyllid ECO. Er gwaethaf hyn, fe glywsom ni fod y cynllun ECO yn cael ei danddefnyddio yng Nghymru o hyd. Mae hyn yn siomedig.

Dywedodd y Gweinidog wrthym fod gwaith yn mynd rhagddo bellach i ddatblygu dull cydweithredol gydag awdurdodau i sicrhau eu bod yn cymryd rhan i'r eithaf yn y cynllun ECO. Er mor galonogol y gallai hyn fod, rydym yn cwestiynu pam y cymerodd cyhyd i Lywodraeth Cymru weithredu. Rydym yn disgwyl i'r Gweinidog fonitro effaith y gwaith hwn ar lefel cyllid ECO i Gymru.

Fe glywsom ni y gallai model stoc adeiladau Cymru gyfan fod yn arf defnyddiol i nodi aelwydydd sy'n gymwys ar gyfer cyllid ECO. Rydym yn disgwyl i'r Gweinidog archwilio'r mater hwn gyda Sefydliad Ynni UCL ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlyniad.

Y Cynllun Uwchraddio Boeleri

Er nad yw heb feirniadaeth, mae Cynllun Uwchraddio Boeleri Llywodraeth y DU yn cynnig ffynhonnell gyllid bwysig i'r rhai yn y sector 'gallu talu' y mae eu heiddo yn rhai 'parod am bwmp gwres' i dalu'r gost ymlaen llaw ar gyfer gosod. Nid yw'n glir a yw Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r Cynllun Uwchraddio Boeleri, na sut y mae'n gwneud hynny. Dylai'r Gweinidog roi sylw i'r mater hwn.

Mae pypmpiau gwres yn debygol o ddod yn dechnoleg brif ffrwd dros y degawd nesaf. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod polisi cynllunio presennol yn creu rhwystrau o ran eu gosod yng Nghymru. Rydym yn credu y dylai'r Gweinidog adolygu canllawiau Llywodraeth Cymru ar ganiatâd cynllunio ar gyfer pypmpiau gwres, gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r mater hwn.

Argymhelliaid 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hymateb i'r ymgynghoriad ar iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd erbyn mis Mawrth 2023 fan bellaf. Os nad yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i wneud hynny, rydym yn disgwyl iddi egluro'r rheswm wrth ymateb i'r adroddiad hwn.

Argymhelliad 8. Rhaid i ymateb Llywodraeth Cymru i'w hymgyngghoriad ar iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd roi rhagor o fanylion am y cynllun Nyth newydd, gan gynnwys meini prawf cymhwysedd, capiau cost a mesurau ôl-osod effeithlonrwydd ynni.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth ar ôl i gynllun presennol Nyth ddod i ben a lansio'r cynllun newydd yn ei le. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflymu'r gwaith ar y cynllun newydd fel bod modd ei lansio erbyn diwedd haf 2023 fan bellaf.

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog roi esboniad manwl o'r rhaglen newydd arfaethedig i gefnogi'r broses o ddatgarboneiddio tai (y cyfeirir ati yn ei llythyr at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol), gan gynnwys pryd y caiff ei lansio, sut y bydd yn cefnogi'r sector 'gallu talu', a'r lefel buddsoddiad a fydd ar gael i gyflwyno'r rhaglen dros y tair blynedd nesaf.

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog ymrwymo i fonitro effaith y "dull cydweithredol" at ECO4 ar gyfranogiad awdurdodau lleol yn y cynllun ac ar lefel cyllid ECO i Gymru.

Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog archwilio gyda Sefydliad Ynni UCL y potensial ar gyfer defnyddio ei fodel stoc adeiladau Cymru gyfan fel ffordd o ganfod aelwydydd sy'n gymwys ar gyfer cyllid ECO ac ar gyfer unrhyw gyllid grant yn y dyfodol i gefnogi ôl-osod effeithlonrwydd ynni. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlyniad cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Argymhelliad 13. Dylai'r Gweinidog egluro a yw Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo Cynllun Uwchraddio Boeleri Llywodraeth y DU ymhlith perchnogion tai yng Nghymru, a sut y mae'n gwneud hynny.

Argymhelliad 14. Dylai'r Gweinidog adolygu canllawiau Llywodraeth Cymru ar ganiatâd cynllunio ar gyfer pypiau gwres gyda'r bwriad o lacio'r gofyniad na all unrhyw ran o'r pwmp gwres gael ei osod o fewn tri metr i ffin eiddo, yn unol â Lloegr.

4. Dull rheoleiddio i gynyddu gweithgarwch effeithlonrwydd ynni

56. Bydd angen safonau rheoleiddio hirdymor i gynyddu gweithgarwch ôl-osod effeithlonrwydd ynni yn y sector preifat. Mae safonau rheoleiddio, a elwir yn Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni, eisoes ar waith yn y sector rhentu preifat.³⁷ Cânt eu pennu gan Lywodraeth y DU gan fod ynni yn parhau i fod yn faes polisi a gedwir yn ôl. Nid oes safonau cyfatebol ar gyfer y sector perchen-feddianwyr.

Codi safonau yn y sector rhentu preifat

57. Ym mis Medi 2020, cynhaliodd Llywodraeth y DU **ymgyngoriad ar godi safonau yn y sector rhentu preifat**. Yr opsiwn a ffefrir ganddi yw codi'r safon perfformiad ynni i EPC gradd C, gyda thrywydd graddol ar gyfer cyflawni'r gwelliannau ar gyfer tenantiaethau newydd o 2025 a phob tenantiaeth o 2028 ymlaen. Byddai'r cap costau cysylltiedig yn cynyddu i £10,000.

58. Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid yn croesawu cynnig Llywodraeth y DU i godi safonau fel cam hanfodol tuag at ddatgarboneiddio'r sector a mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mynegwyd rhwystredigaeth ganddynt nad yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi canlyniad ei hymgyngoriad eto. Dywedodd y Sefydliad Tai Siartredig, os nad yw Llywodraeth y DU yn fodlon gweithredu, y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gweithredu Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni uwch yng Nghymru yn unig.³⁸ Awgrymodd Generation Rent y dylai bodloni Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni gael ei ymgorffori yng nghynllun cofrestru a thrwyddedu statudol landlordiaid Cymru.³⁹

59. Er bod UK Finance yn cefnogi'r egwyddor o wella safonau yn y sector rhentu preifat, roedd yn cwestiynu a fyddai modd cyrraedd targed arfaethedig 2025. Cyfeiriodd at gyfyngiadau presennol yn y gadwyn gyflenwi, prinder sgiliau, diffyg ymwybyddiaeth ymhlith tenantiaid a landlordiaid, a chost uwchraddio fel rhwystrau posibl.

³⁷ O dan reoliadau Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni presennol y sector rhentu preifat, rhaid i landlordiaid preifat beidio ag adnewyddu tenantiaethau presennol na rhoi tenantiaethau newydd os oes gan yr eiddo radd EPC o lai nag E. Ar ôl 1 Ebrill 2023, rhaid i landlordiaid beidio â pharhau i osod eiddo sydd â sgôr EPC o lai nag E. Mae'n ofynnol i landlordiaid cartrefi â gradd F a G fuddsoddi, neu gyd-fuddsoddi, i wella perfformiad ynni eu heiddo hyd at EPC Band E os nad oes cyllid trydydd parti ar gael neu os yw'n annigonol. Mae'r gofyniad gwariant landlordiaid wedi'i gapio ar £3,500 gan gynnwys TAW (a elwir yn 'gap cost').

³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 7

³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 24

60. Dywedodd NRLA fod y Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni yn aneffeithiol, yn enwedig yng Nghymru, o ystyried pa mor gyffredin yw eiddo hŷn, sy'n costio mwy i'w huwchraddio. Roedd yn honni, hyd yn oed gyda'r cap cost arfaethedig o £10,000, na fydd rhai eiddo o bosibl yn gallu cyrraedd y safon ofynnol.⁴⁰

Cap cost

61. Yn ôl NRLA, gallai'r cap cost arfaethedig gynrychioli cyfran sylweddol o werth yr eiddo cyffredin, ac na fyddai'n ddarbodus i lawer o landlordiaid yng Nghymru. Rhybuddiodd y bydd gosod y cap cost yn rhy uchel yn gwrthio landlordiaid allan o'r farchnad.⁴¹

62. Galwodd NRLA ar i gyfraniad landlordiaid at uwchraddio eiddo gael ei gysylltu â rhenti cyfartalog y farchnad mewn unrhyw ardal benodol (a elwir yn Ardaloedd Marchnad Rhentu Eang). O dan gynigion NRLA, byddai angen i landlordiaid gyfrannu lleiafswm o £5,000, tra byddai angen i landlordiaid sy'n rhentu eiddo mewn ardaloedd marchnad rhentu gyda rhenti cyfartalog uwch gyfrannu mwy, gan dapro'n raddol i £10,000.⁴²

Effaith ar y farchnad rentu

63. Rhybuddiodd llawer o'r rhanddeiliad, gan gynnwys y Sefydliad Tai Siartredig, y Panel Arbenigwyr Tai a Chris Jofeh am grebachu ym marchnad y sector rhentu preifat yn gysylltiedig â mwy o reoliadau, a'r angen i liniaru hyn. Dywedodd NRLA wrth y Pwyllgor:

*"Our ultimate concern is that requirements to upgrade properties without additional support make remaining a landlord unsustainable as a business model, especially for most landlords who only receive a small amount of income in rent each year and only own one or two properties. This could lead to landlords leaving the market, reducing supply whilst demand is high and leading to fewer properties being upgraded."*⁴³

64. Dywedodd y Panel Arbenigwyr Tai y gallai gofyniad deddfwriaethol ychwanegol a roddir ar landlordiaid y sector rhentu preifat gyflawni targedau datgarboneiddio y tu hwnt i'r rhai a welir ar hyn o bryd yn y Safonau Gofynnol

⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 6

⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 6

⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 6

⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 6

Effeithlonrwydd Ynni gael effaith andwyol sylweddol ar argaeledd stoc.⁴⁴ Awgrymodd Chris Jofeh y gallai Cynllun Lesio Cymru Llywodraeth Cymru ddarparu ateb posibl.

65. Fe wnaeth Matthew Judd, UK Finance, nodi bod arwyddion cynnar bod landlordiaid mwy craff, yn enwedig y rhai sy'n fwy proffesiynol ac sydd â phortffolios mwy, yn edrych i adael yr eiddo sy'n fwy aneffeithlon o ran ynni a symud i eiddo mwy effeithlon o ran ynni.⁴⁵ Dywedodd Paul Broadhead (BSA) fod hyn yn creu ei her ei hun, wrth i fwy o stoc sy'n perfformio'n wael ddod ar gael i brynwyr tro cyntaf, sy'n llai abl i dalu cost gwelliannau.⁴⁶

66. Awgrymodd Generation Rent y gallai Llywodraeth Cymru neilltuo arian cyhoeddus i brynu cartrefi rhent preifat ar Fand D EPC neu is sydd wedi'u rhestru i'w gwerthu, buddsoddi yn eu hôl-osod a sicrhau eu bod ar gael fel tai cymdeithasol.⁴⁷

Cydymffurfio a gorfodi

67. Roedd adroddiadau am ddiffyg ymwybyddiaeth ymhlith landlordiaid o'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni. Fe wnaeth Sero fynegi rwystredigaeth nad yw nifer sylweddol o landlordiaid yn dangos unrhyw ymwybyddiaeth o'r safonau hyn o hyd. Gwrthododd cynrychiolwyr y sector rhentu preifat yr awgrym hwn.

68. Yn ôl rhanddeiliaid, nid yw awdurdodau lleol yn effeithiol o ran gorfodi'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni, yn bennaf oherwydd diffyg capasiti ac adnoddau. Dywedodd y Panel Arbenigwyr Tai fod awdurdodau'n defnyddio'u pwerau gorfodi yn anghyson ac yn anaml.⁴⁸ Dywedodd y Sefydliad Tai Siartredig fod yna dystiolaeth sylweddol bod y Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni yn cael eu gorfodi'n wael ar hyn o bryd. Pwysleisiodd yr angen i ddarparu adnoddau ar gyfer y Rheoliadau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni presennol a'u gorfodi, cyn eu cryfhau.⁴⁹

69. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni fod tri awdurdod yng Nghymru wedi cael cyllid gan Lywodraeth y DU i sefydlu timau gorfodi penodol ar gyfer y Rheoliadau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni, gan arwain at ymgysylltu rhagweithiol

⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 27

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 71, 20 Hydref 2022

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 74, 20 Hydref 2022

⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 24

⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 27

⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 7

â landlordiaid ar newidiadau mewn safonau, a chynigion o gefnogaeth a chymorth.

70. Cyfeiriodd sawl rhanddeiliad at rôl ehangach o bosibl i Rhentu Doeth Cymru o ran cydymffurfio a gorfodi'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni fod Rhentu Doeth Cymru mewn sefyllfa dda i oruchwylio'r broses hon o atgyfnerthu safonau ochr yn ochr ag awdurdodau lleol, ond bod yn rhaid ei gefnogi i wneud hynny.⁵⁰ Awgrymodd y Sefydliad Tai Siartredig y dylai Rhentu Doeth Cymru fod â rôl benodol o ran cefnogi'r gwaith o orfodi'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni a chydgyssylltu rhwng gwahanol adrannau awdurdodau lleol fel lechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach, i dargedu eiddo sy'n tanberfformio. Galwodd am ddatblygu cronfa ddata ac offer cenedlaethol effeithiol ar gyfer cydymffurfio a gorfodi'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni, a dywedodd y gellid eu cyflwyno ledled Cymru am lai na £1 filiwn y flwyddyn.⁵¹

71. Galwodd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad am newid pwyslais, o orfodi i gymorth, a thynnodd sylw at yr anawsterau y mae landlordiaid gwledig yn eu hwynebu o ran bodloni gofynion Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni mwy llym.⁵²

Cyflwyno safonau yn y sector perchen-feddianwyr

72. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni ar gyfer y sector perchen-feddianwyr ledled y DU. Fodd bynnag, mae Llywodraeth yr Alban wedi **nodi ei bwriad** i ymgynghori ar gynigion ar gyfer cyflwyno Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni o 2023-2025 ymlaen. Rhagwelir y bydd y safonau'n cael eu gosod ar lefel sy'n cyfateb i raddfa C y Dystysgrif Perfformiad Ynni, gyda dyddiad wrth gefn o 2033.

73. Mae Llywodraeth y DU yn ystyried cyfleoedd i wella perfformiad ynni cartrefi perchen-feddianwyr, ond nid yw'n glir a yw hyn yn cynnwys cynigion i gyflwyno Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni.⁵³ Yn y cyfamser, mae wedi ymgynghori ar gyflwyno gofynion datgelu gorfodol ar gyfer benthycwyr morgeisi ar berfformiad ynni'r cartrefi y maent yn rhoi benthyg iddynt, ac ar osod targedau gwella gwirfoddol i'w cyrraedd erbyn 2030.

⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 25

⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 7

⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 11

⁵³ Llywodraeth EM, Strategaeth Gwres ac Adeiladu, Hydref 2021

74. Wrth gefnogi'r syniad o gyflwyno safonau ar gyfer y sector perchen-feddianwyr, dywedodd Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig po fwyaf y rheoleiddir y ddeiliadaeth, yr uchaf yw'r perfformiad. Dywedodd fod bron i 60 y cant o gartrefi cymdeithasol presennol Cymru yn cyflawni EPC A-C, wedi'u hysgogi gan safonau ôl-osod a gwella llym, o gymharu â dim ond 20 y cant mewn sector perchen-feddianwyr presennol sydd wedi'i dargedu a'i reoleiddio'n wael.⁵⁴

75. Dywedodd Cyngor Adeiladu Gwyrdd y DU (UK GBC) ei bod yn hollbwysig pennu amserlenni ar gyfer Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni ar gyfer pob deiliadaeth tai. Galwodd am gyflwyno'n raddol safonau rheoleiddio ar gyfer y sector perchen-feddianwyr, gan ddechrau ar EPC gradd C (neu gyfwerth) ar y pwynt gwerthu.⁵⁵ Mae hyn yn adleisio awgrym y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn ei **Adroddiad Cynnydd diweddaraf i Senedd y DU** (Mehefin 2022).

76. Mynegodd nifer o randdeiliaid bryder bod cyflwyno Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni yn y sector perchen-feddianwyr yn peri risg o greu 'asedau amddifad' (a elwir hefyd yn 'asedau caeth'). Eglurodd BSA, os yw gwaith i gyrraedd lefel benodol EPC yn anfforddiadwy, gall pobl fod yn gaeth mewn cartref a bod mewn perygl o ecwiti negyddol neu ddod yn garcharorion i forgais.⁵⁶

Tystiolaeth gan y Gweinidog

77. Dywedodd y Gweinidog fod yr oedi parhaus cyn i Lywodraeth y DU gyhoeddi canlyniad ymgynghoriad y Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni yn broblem wirioneddol i Lywodraeth Cymru.⁵⁷ Dywedodd hefyd fod perygl, o symud ymlaen yng Nghymru, cyn bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar lefel y DU, "yn peri risg o ddyfalu canlyniadau'r ymgynghoriad, sy'n golygu efallai y bydd rhaid i landlordiaid ymgymryd â gwelliannau amryfal i fodloni'r ddau ofyniad".⁵⁸ Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod wedi gofyn i gael siarad â'r Ysgrifennydd Gwladol Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau cyn gynted â phosibl ynglŷn â'r mater hwn.

78. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y farchnad rentu yng Nghymru yn wahanol iawn i'r farchnad yn Lloegr, gyda'r mwyafrif o landlordiaid yn berchen ar un eiddo yn unig.⁵⁹ Dywedodd fod dros 60 y cant o eiddo rhent ar hyn o bryd yn rhai EPC gradd D neu E, ac angen rhwng £6,000 a £12,000 i gyrraedd EPC C.

⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 28

⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 26

⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 13

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 258, 7 Rhagfyr 2022

⁵⁸ Papur tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar gyfer cyfarfod 7 Rhagfyr 2022

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 244, 7 Rhagfyr 2022

Dywedodd y byddai hyn yn ymrwymiad ariannol sylweddol i'r rhan fwyaf o landlordiaid, sy'n cyfateb i oddeutu blwyddyn o incwm o rent.⁶⁰

79. Pwysleisiodd y Gweinidog yr angen i gael y cymhellion yn iawn i wneud hyn mewn ffordd nad yw'n contractio'r sector rhentu preifat mewn ffordd a fydd yn gwaethygu'r problemau digartrefedd sy'n bodoli ledled Cymru.⁶¹ Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wrthi'n ymchwilio i brosiect i gefnogi landlordiaid preifat i ddatgarboneiddio'u heiddo, gan gyfeirio at hyn fel cysylltiad rhwng Cynllun Lesio Cymru a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio.⁶² Esboniodd, o dan y cynigion, y byddai cartrefi sy'n ymuno â Chynllun Lesio Cymru yn gymwys i gael cyllid grant i wella effeithlonrwydd ynni'r eiddo.

80. O ran y mater o orfodi Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni cynyddol, dywedodd y Gweinidog eu bod yn disgwyl i Lywodraeth y DU sicrhau bod digon o adnoddau i'r awdurdodau lleol wneud hynny.⁶³

81. Pan holwyd y Gweinidog ynghylch y potensial i Rhentu Doeth Cymru chwarae rhan fwy o ran cydymffurfio a gorfodi'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni, dywedodd y Gweinidog y byddai'n ddigon bodlon edrych ar hynny, ond ei bod yn bwysig dweud nad yw Rhentu Doeth Cymru yn gorff gorfodi, ond yn hytrach yn gorff rheoleiddio a thrwyddedu.⁶⁴ Pwysleisiodd mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am orfodi'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni.

Ein barn ni

Bydd angen cyfuniad o gymhellion a safonau rheoleiddio, ymhlith pethau eraill, i gyflymu'r gwaith ôl-osod effeithlonrwydd ynni yn y sector preifat. Dim ond hyn a hyn y bydd cymhellion yn ei wneud, felly heb fframwaith rheoleiddio addas mae perchnogion eiddo yn annhebygol o weithredu. Er bod safonau rheoleiddio eisoes yn bodoli yn y sector rhentu preifat, maent ymhell i ffwrdd o'r rhai sydd eu hangen i gyrraedd y targed cyffredinol o sgôr EPC A erbyn 2050.

Mae pennu'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni yn parhau i fod yn fater i Lywodraeth y DU. Tra bod Llywodraeth y DU yn parhau i lusgo ei thraed ynghylch a ddylid codi safonau yn y sector rhentu preifat, mae ansicrwydd yn parhau yn y sector. Mae hyn yn destun gofid mawr.

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 244, 7 Rhagfyr 2022

⁶¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 244, 7 Rhagfyr 2022

⁶² Papur tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar gyfer cyfarfod 7 Rhagfyr 2022

⁶³ Cofnod y Trafodion, paragraff 262, 7 Rhagfyr 2022

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 264, 7 Rhagfyr 2022

Mae tystiolaeth y Gweinidog i ni yn awgrymu na fyddai Llywodraeth Cymru o blaid defnyddio safonau rheoleiddio yn y sector preifat fel ffordd o ysgogi cynnydd. Rydym yn disgwyl i'r Gweinidog egluro safbwynt Llywodraeth Cymru. Yn absenoldeb polisiâu amgen, credadwy, nid yw'n glir sut y bydd gweithgarwch ôl-osod yn y sector yn cael ei gyflawni yn ddigon helaeth a chyflym.

Mae'r sector rhentu preifat yn chwarae rhan bwysig o ran helpu i ddiwallu anghenion tai Cymru. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r sector i sicrhau nad yw unrhyw gynnydd yn y Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni yn effeithio ar argaeledd eiddo rhentu preifat fforddiadwy. Mae'n galonogol clywed am y cynnig i ddarparu cyllid grant ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni i landlordiaid sy'n ymuno â Chynllun Lesio Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn gweithredu ar raddfa fach, a phrin yw'r landlordiaid sydd wedi ymuno. Byddai angen ei dyfu'n sylweddol er mwyn cyflawni uchelgeisiau datgarboneiddio ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector.

Rhaid cynnig atebion ariannol eraill i landlordiaid sy'n dewis peidio ag ymuno â'r cynllun. Rydym yn archwilio'r atebion ariannol ym Mhennod 7.

Er mwyn osgoi'r risg o asedau amddifad, rhaid sicrhau bod atebion ariannol priodol ar gael hefyd i alluogi perchen-feddianwyr i dalu'r costau ymlaen llaw ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni. Ar hyn o bryd, nid oes atebion o'r fath yn bodoli.

Mae cydymffurfio a gorfodi effeithiol yn allweddol i lwyddiant safonau rheoleiddio o ran ysgogi gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn y sector rhentu preifat. Ond nid oes gan awdurdodau lleol yng Nghymru y capasiti na'r adnoddau i gyflwyno hyn. Rydym yn cydnabod mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw sicrhau bod gan awdurdodau ddigon o adnoddau i wneud gwaith cydymffurfio a gorfodi mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni. Fodd bynnag, credwn fod gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn llwyr ddeall anghenion adnoddau awdurdodau Cymru.

Rydym yn cydnabod nad yw Rhentu Doeth Cymru yn gyfrifol am orfodi'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni. Serch hynny, credwn ei fod mewn sefyllfa dda i gefnogi gwaith cydymffurfio a gorfodi gan awdurdodau, er enghraifft, drwy nodi eiddo sy'n tanberfformio. Mae'n galonogol gweld bod y Gweinidog yn fodlon ystyried y mater hwn.

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog egluro safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch y defnydd o safonau rheoleiddio i gynyddu gweithgarwch ôl-osod yn y

sector preifat, gan gynnwys a yw'n cefnogi cynnig Llywodraeth y DU i gynyddu'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni yn y sector rhentu preifat.

Argymhelliad 16. Dylai'r Gweinidog:

- esbonio pryd a sut y caiff Cynllun Lesio Cymru ei ehangu i gefnogi uchelgeisiau datgarboneiddio ehangach Llywodraeth Cymru; a
- darparu manylion lefel y buddsoddiad a fydd ar gael i gyflawni'r Cynllun dros y tair blynedd nesaf.

Argymhelliad 17. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos arweiniad ac ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth y DU ar y lefel uchaf i sicrhau bod anghenion adnoddau awdurdodau lleol Cymru mewn perthynas â chydymffurfiaeth a gorfodaeth y Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni yn cael eu deall a'u diwallu'n llawn.

Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog, ar y cyd â Rhentu Doeth Cymru ac awdurdodau lleol, adolygu'r trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth a gorfodaeth y Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni, gyda golwg ar nodi meysydd posibl i'w gwella. Dylai'r adolygiad gynnwys, fel isafswm:

- rôl Rhentu Doeth Cymru o ran codi ymwybyddiaeth o'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni ymhlith landlordiaid ac o ran nodi eiddo sy'n tanberfformio, a
- sut y caiff gwybodaeth am eiddo sy'n tanberfformio ei rhannu rhwng sefydliadau i sicrhau cymorth wedi'i dargedu a/neu gamau cydymffurfio a gorfodi.

5. Mynd i'r afael â'r bylchau o ran gwybodaeth a data

Deall y stoc dai bresennol

82. Pwysleisiodd y rhanddeiliaid bwysigrwydd deall y stoc bresennol yn well er mwyn llywio'r dull o ddatgarboneiddio'r sector preifat.

83. Dywedodd Gofal a Thrwsio Cymru fod Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 yn ffynhonnell ddata amhrisiadwy, ond ei fod bellach wedi dyddio. Ychwanegodd, er mwyn i fentrau ôl-osod dargedu'r rhai sydd angen ôl-osod fwyaf, rhaid cynnal ymarfer casglu data fel Arolwg Cyflwr Tai Cymru cyn gynted â phosibl.⁶⁵ Awgrymodd Propertymark y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno Arolwg Tai Cymru, yn debyg i'r English Housing Survey.

84. Nododd Chris Jofeh fod casglu data am adeiladu cartrefi a defnydd ynni cartrefi yn dasg y mae angen ei chyflawni ar frys, ond yn un y mae Llywodraeth Cymru wedi methu â gwneud cynnydd digonol tuag ati.⁶⁶ Dywedodd fod y wybodaeth am 1.4 miliwn o gartrefi yng Nghymru yn wael dros ben. Dywedodd felly mai'r man cychwyn o ran dull hirdymor yw casglu data am gartrefi, asesu'r hyn sydd ei angen, pa lwybr y dylid ei ddilyn, a beth yw'r 'llwybr i sero'. Awgrymodd y gallai darparu gwybodaeth am adeiladu cartrefi fod yn un o ofynion y cynllun cofrestru a thrwyddedu landlordiaid.⁶⁷

Tystiolaeth gan y Gweinidog

85. Ym mis Ionawr 2022, dywedodd y Gweinidog wrth Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd y byddai swyddogion yn ystyried achos busnes ar gyfer arolwg tai yn y dyfodol yn 2022. Wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwnnw ym mis Medi 2022, dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru nad yw'r gwaith wedi symud ymlaen mor gyflym ag yr oeddent wedi'i obeithio, ond mai'r bwriad o hyd yw bwrw ymlaen ac ymchwilio i hyn.⁶⁸

Mynediad at ddata mesuryddion clyfar

86. Tynnodd sawl un o'r rhanddeiliad sylw at bwysigrwydd sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael mynediad at ddata mesuryddion clyfar i gael

⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 9

⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 5

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 39, 5 Hydref 2022

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 103, 29 Medi 2022, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

dealltwriaeth well o ddefnydd ynni cartrefi ac asesu allyriadau carbon yn fwy cywir. Y Data Communications Company sy'n cadw'r data hyn ac ni cheir eu rhyddhau heb gydsyniad ysgrifenedig talwr y bil. Dywedodd Dr Donal Brown fod modd datrys materion yn ymwneud â data mesuryddion clyfar ond y bydd hyn yn gofyn am ymdrech.⁶⁹ Dywedodd Chris Jofeh wrth y Pwyllgor:

*"My committee's been urging Welsh Government for years to get together with the Department for Business, Energy and Industrial Strategy and persuade it to allow the Data Communications Company that controls that data to release it to trusted individuals under the right protocols, so that we have the data that we need, that Welsh Government has the data that it really does need, to monitor progress. If we can't use the smart meter data, we don't know where we are; any estimate of greenhouse gas emissions from the residential sector is just a guess."*⁷⁰

87. Cydnabu Andy Regan werth data mesurydd clyfar ond dywedodd y gallai goresgyn cyfyngiadau preifatrwydd beri llawer o broblemau.⁷¹

Tystiolaeth gan y Gweinidog

88. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd ar y rhaglen Ymchwil Tai Cymdeithasol ar Ynni o Ddata Cymru (SHREWD), sydd wedi'i anelu'n benodol at ofyn am fynediad at ddata mesuryddion clyfar preswylwyr, gan alinio hynny â gwybodaeth drwy ddata asedau ein landlordiaid cymdeithasol, a dadansoddi'r data cyfunol. Dywedodd y bydd y rhaglen yn rhoi enghreifftiau o brosesau cyfredol a rhwystrau rhag cael mynediad at ddata mesuryddion clyfar.

89. Dywedodd y Gweinidog hefyd ei bod wedi ymrwymo droeon i godi'r mater hwn gyda Llywodraeth y DU, a hynny drwy drafodaeth gyda'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol er enghraifft, ac mae wedi codi hyn gydag Ofgem nifer fawr o weithiau.

Pasbortau Adnewyddu Adeiladau

90. Yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2019, galwodd y Grŵp Cyngori ar Lywodraeth Cymru i ariannu'r gwaith o greu a hyrwyddo 'Cofnodlyfr Cartref' (y

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 105, 5 Hydref 2022

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 102, 5 Hydref 2022

⁷¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 223, 5 Hydref 2022

cyfeirir ato hefyd fel 'Pasbort Adnewyddu Adeiladau') ar gyfer pob cartref er mwyn llywio penderfyniadau a buddsoddiadau ynghylch effeithlonrwydd ynni. Dadleuodd y dylai hyn fod ar waith ar gyfer pob cartref o 2025.

Beth yw Pasbort Adnewyddu Adeiladau

Mae Pasbort Adnewyddu Adeiladau yn ddogfen – ar ffurf electronig neu bapur – sy'n amlinellu map ffordd adnewyddu cam wrth gam hirdymor (hyd at 15-20 mlynedd) i gyflawni adnewyddiad dwfn ar gyfer adeilad penodol. Mae'n cefnogi perchnogion gyda chynghor personol ar eu hopsiynau adnewyddu ac yn egluro'r camau adnewyddu i'r holl bartïon cysylltiedig.⁷²

91. Mae mentrau y Pasbort Adnewyddu Adeiladau yn cael eu cyflwyno mewn nifer gynyddol o wledydd ac mae cryn dipyn o waith eisoes wedi'i wneud ar sut i'w hymgorffori ym marchnad y DU, er enghraifft adroddiad Green Finance Institute, **Building Renovation Passports: Creating the pathway to zero carbon**.

92. Roedd cefnogaeth eang ar draws y sector i gyflwyno Pasbortau Adnewyddu Adeiladau, a hynny fel ffordd o wella dealltwriaeth o'r stoc dai bresennol a chefnogi perchnogion tai i wneud penderfyniadau gwybodus am ôl-osod effeithlonrwydd ynni. Fodd bynnag, nid oedd Andy Regan (Nesta) wedi'i argyhoeddi o'r angen am Pasbort Adnewyddu Adeiladau ar gyfer pob cartref. Dywedodd, er y byddai data cynhwysfawr ar y stoc dai bresennol yn hynod ddefnyddiol i'w gael, nad oedd yn meddwl ei fod yn rhag-amod hanfodol i gymryd camau eraill.⁷³

93. Mynegodd Chris Jofeh rwystredigaeth ynghylch y diffyg gweithredu gan Lywodraeth Cymru i weithredu argymhelliad y Grŵp Cyngori mewn perthynas â Phasbortau Adnewyddu Adeiladau, gan gyfeirio at hyn fel rhwystr difrifol rhag cynnydd.⁷⁴

94. Dywedodd Emma Harvey (GFI) y byddai angen cymorth i wneud Pasbortau Adnewyddu Adeiladau yn ddatrysiad prif ffrwd ar ffurf buddsoddiad ychwanegol a threialu.⁷⁵ Dywedodd Andy Regan, fod angne profi Pasbort Adnewyddu Adeiladau ar gyfer pob cartref fel cyfrwng ar gyfer y sector preifat, fel rhywbeth a fydd yn helpu pobl i fod yn hyderus i gymryd y camau, cyn mynd yn rhy bell gyfa hwy, a'i fod wir yn credu hynny er ei fod yn meddwl ei fod yn syniad da iawn.

⁷² **Building Renovation Passports: Consumer's journey to a better home. Buildings Performance Institute Europe**

⁷³ Cofnod y Trafodion, paragraff 280, 5 Hydref 2022

⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 5

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 33, 20 Hydref 2022

Dywedodd fod angen profi hyn gyda'r bobl sy'n gorfod ei ddefnyddio mewn gwirionedd.⁷⁶

95. Amcangyfrifodd Andy Regan mai tua £275 miliwn yw cost darparu Pasbort Adnewyddu Adeiladau ar gyfer pob cartref. Dywedodd fod hyn yn gryn dipyn o arian i'w wario ymlaen llaw ac y gallai fod yn well ei wario ar bethau eraill.⁷⁷ Fodd bynnag, roedd Chris Jofeh yn haeru y gellid darparu Pasbort Adnewyddu Adeiladau heb unrhyw gost i Lywodraeth Cymru.⁷⁸

Tystiolaeth gan y Gweinidog

96. Pan ofynnwyd iddi am ei barn ar y defnydd o Basbortau Adnewyddu Adeiladau, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad yw cyfraith tir wedi'i datganoli i Gymru, felly nid oes ganddi unrhyw bŵer i fandadu bod gan bob cartref basbort, a byddai ceisio cael y mandad i wneud hynny'n cymryd cryn dipyn o amser ac ymdrech. Dywedodd hefyd fod cost i'r syrfewyr.⁷⁹ Pwysleisiodd yr angen i flaenoriaethu ein hadnoddau, gan gynnwys yr adnoddau proffesiynol sydd gennym, i brosiectau datgarboneiddio gwirioneddol sy'n mynd rhagddynt. Dywedodd, er ei bod yn meddwl fod hyn yn ôl pob tebyg yn nod hirdymor teilwng i Lywodraeth y DU, nid yw'n meddwl ei fod yn rhywbeth y dylai Llywodraeth Cymru fod yn dargyfeirio ei hadnoddau ato ar hyn o bryd.⁸⁰

Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

97. Dywedodd Sero wrth y Pwyllgor fod ei waith ymgysylltu yn dangos nad yw'r rhan fwyaf o drigolion yn sylweddoli mai eu cartref sy'n debygol o fod yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'u hól troed carbon cyffredinol. Mae llawer yn awyddus i 'wneud eu rhan' i'r graddau y maent yn teimlo y gallant, ond mae'r diffyg ymwybyddiaeth hwn yn golygu nad yw landlordiaid preifat a pherchen-feddianwyr yn ymwybodol i ddechrau ystyried camau gweithredu. Ychwanegodd:

"The Welsh Government is well placed to put in place a sustained, wide- reaching public information campaign about the drive to Net Zero Carbon across all walks of life. This should include the impact of homes, and the journey that each Welsh

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 261, 5 Hydref 2022

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 261, 5 Hydref 2022

⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 5

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 251, 7 Rhagfyr 2022

⁸⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 251, 7 Rhagfyr 2022

*home needs to go on in order to help tackle the climate emergency.*⁸¹

98. Mynegwyd safbwynt tebyg gan Propertymark, a alwodd ar Lywodraeth Cymru i gynnal ymgyrch gyfathrebu genedlaethol ar gyfer tenantiaid, landlordiaid a pherchen-feddianwyr. Dywedodd mai rhan ganolog o alluogi chwyldro ôl-osod ar y llwybr i sero net fydd cyfleu'r buddion ehangach yn ddigonol i berchnogion tai a landlordiaid. Dywedodd, yn ogystal â helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, fod manteision gwella effeithlonrwydd ynni stoc tai'r wlad yn cynnwys arbedion cost ar filiau cartrefi.⁸²

99. Dywedodd Dr Donal Brown, gyda phrisiau ynni ar y lefel y maent, ei fod yn meddwl bod cynulleidfa ar hyn o bryd sy'n barod iawn i dderbyn hyn nawr. Ei farn felly oedd y dylid bod yn feiddgar a dechrau cynnal y sgwrs.⁸³ Pwysleisiodd Emma Harvey (Green Finance Institute) bwysigrwydd negeseuon. Dywedodd wrth y Pwyllgor mai prin yawn yw'r bobl sy'n ôl-osod eu cartrefi am resymau hinsawdd ac, mewn gwirionedd, hyd yma mae llawer o'r negeseuon wedi bod yn ymwneud â'r manteision amgylcheddol. Dywedodd, gyda'r argyfwng costau byw, ein bod yn gwybod bod pobl eisiau gweithredu, a bod hynny'n rhywbeth i fanteisio arno.⁸⁴

Cyngor a chymorth annibynnol

100. Dywedodd y Sefydliad Tai Siartredig fod diffyg cyngor a gwybodaeth wedi'u targedu ar gyfer landlordiaid a thenantiaid yn her greiddiol o ran y nifer sy'n mabwysiadu mesurau ôl-osod yn y sector rhentu preifat.⁸⁵ Dywedodd Ynni Cymunedol Cymru fod llawer o berchen-feddianwyr yn awyddus i leihau eu hól troed carbon, ac mae ganddynt y cyfalaf preifat i wneud hynny, ond maent yn cael eu drysu gan negeseuon gwrthgyferbyniol yn y cyfryngau a thrwy sïon. Tynnodd sylw at yr angen am wasanaeth cymorth cyson ledled Cymru, sy'n broffesiynol ac yn awdurdodol, a all ymgysylltu'n effeithiol â'r sector preifat ac ennill ei ymddiriedaeth.⁸⁶

101. Roedd cefnogaeth eang i greu siopau un stop sy'n darparu cyngor a chymorth annibynnol ar draws y sector tai. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni fod Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon wedi symud (neu wrthi'n symud) tuag at 'ddull siop un stop mwy cyfannol, yn dilyn llwyddiant **Home**

⁸¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 15

⁸² Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 23

⁸³ Cofnod y Trafodion, paragraff 50, 5 Hydref 2022

⁸⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 85, 20 Hydref 2022

⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 7

⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 16

Energy Scotland (HES)⁸⁷. Eglurodd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni fod HES yn darparu cymorth cynhwysfawr a phwrrpasol, wedi'i deilwra i aelwydydd o bob deiliadaeth. Dywedodd fod hyn wedi helpu i gyflawni canlyniadau cryf o ran lleihau costau rhedeg ac allyriadau carbon aelwydydd.⁸⁸

102. Roedd y Sefydliad Tai Siartredig yn gryf o blaid 'siopau un stop' dan arweiniad awdurdodau lleol. Cyfeiriodd at waith y New Economics Foundation, sy'n amcangyfrif y byddai hyn yn gofyn am tua £12 miliwn fesul 500,000 o gartrefi sy'n cael eu hôl-osod, neu £33 miliwn ar gyfer rhaglen ôl-osod genedlaethol.

103. Dywedodd Dr Donal Brown mai awdurdodau lleol yw'r gweithredwr naturiol yn y gofod hwn fel y corff cydgysylltu canolog y gellir ymddiried ynddo, ond nid oes ganddynt gapasiti nac adnoddau ar hyn o bryd.⁸⁹

Tystiolaeth gan y Gweinidog

104. Wrth ymgynghori ar iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod "yn ystyried buddion gwasanaeth cyngor a chymorth effeithlonrwydd ynni cartref. Gallai hyn fod yn annibynnol ar yr asiant neu asiantau a benodwyd i weinyddu a/neu ddylunio a gosod mesurau effeithlonrwydd ynni tai, a gallai gael ei integreiddio i mewn i 'siop un stop' ehangach".⁹⁰

105. Dywedodd y Gweinidog fod llawer o'r rheini yn y sector 'gallu talu' yn awyddus i ddechrau datgarboneiddio'u cartrefi. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn Hwb Perfformiad Tai Di-Carbon Sero Net (yr Hwb) i gefnogi'r sector 'gallu talu' a rhoi hyder eu bod yn cymryd y camau cywir ar gyfer eu cartrefi, yn ogystal â darparu cyngor, cymorth ac arweiniad ehangach i bawb sy'n ymwneud â datgarboneiddio preswyl.⁹¹ Ychwanegodd fod yr Hwb yn dwyn canllawiau arbenigol ynghyd ar bob agwedd ar ddatgarboneiddio cartrefi preswyl ar sail 'Er Lles'. Yn y lle cyntaf, bydd yr Hwb ar gael i landlordiaid cymdeithasol. Rhagwelir ehangu'r gwasanaethau a gynigir gan yr Hwb i helpu landlordiaid preifat a pherchnogion tai.

⁸⁷ Rhwydwaith o ganolfannau cyngor rhanbarthol ar hyd a lled yr Alban yw Home Energy Scotland, a ariennir gan Lywodraeth yr Alban a'i reoli gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

⁸⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 25

⁸⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 201, 5 Hydref 2022

⁹⁰ Llywodraeth Cymru, Dogfen Ymgynghori: Gwellu effeithlonrwydd ynni cartref i gefnogi pontio cyflawn a Chymru wyrddach: Cynigion ar gyfer iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd, 22 Rhagfyr 2021

⁹¹ Papur tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar gyfer cyfarfod 7 Rhagfyr 2022

Ein barn ni

Gwella dealltwriaeth o'r stoc dai gyfredol

Er bod dealltwriaeth gyffredinol o'r mathau o dai yng Nghymru a'u heffeithlonrwydd ynni, mae angen gwybodaeth a data mwy cynhwysfawr i ategu penderfyniadau yn y dyfodol, targedu cymorth a mesur cynnydd. Rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Credwn fod achos cryf dros gynnal arolwg tai Cymru. Er i'r Gweinidog ymrwymo i ystyried cynnal arolwg yn 2022, nid oes un wedi dod i'r amlwg eto. Rydym yn disgwyl i'r Gweinidog roi esboniad am hyn.

Er ei bod yn galonogol i ni glywed am y rhaglen SHREWD, dim ond yn y sector tai cymdeithasol y mae'n gweithredu. Nid yw'n glir a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella'r ddealltwriaeth o'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon yn y sector preifat, yn enwedig heb fynediad at ddata clyfar, a sut y mae'n gwneud hynny. Byddem yn croesawu eglurhad ynghylch y mater hwn.

Rydym yn nodi bod y Gweinidog eisoes wedi ymrwymo i godi'r mater o fynediad at ddata mesuryddion clyfar gyda Llywodraeth y DU. Hoffem i'r Gweinidog ddarparu manylion ei thrafodaethau diweddaraf gyda Llywodraeth y DU, gan gynnwys y canlyniad. Rydym yn disgwyl i'r Gweinidog barhau i bwysu ar Lywodraeth y DU ar y mater hwn hyd nes y ceir penderfyniad addas.

Rydym yn cwestiynu pam, ar ôl derbyn argymhelliad y Grŵp Cyngori ar Basbortau Adnewyddu Adeiladau yn flaenorol, mae'r Gweinidog bellach wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â hyn mewn perthynas â'r sector preifat. Credwn fod Pasbortau Adnewyddu Adeiladau yn arf allweddol ar gyfer gwella dealltwriaeth o gartrefi presennol Cymru a chefnogi perchnogion tai i wneud penderfyniadau gwybodus am welliannau effeithlonrwydd ynni. Rydym yn rhannu'r pryderon a godwyd yn y dystiolaeth bod amharodrwydd Llywodraeth Cymru i gymryd camau ar Basbortau Adnewyddu Adeiladau yn rhwystr i gynnydd. Rydym yn annog y Gweinidog i ailystyried ei safbwynt.

Strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd

Mae angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o effaith cartrefi ar yr hinsawdd, a phwysigrwydd a manteision gwella effeithlonrwydd ynni. Mae'r argyfwng costau byw presennol a'r cynnydd mewn biliau ynni yn golygu bod nawr yn amser da i gynnwys y cyhoedd mewn sgwrs am wella effeithlonrwydd ynni. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i

awgrymu bod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ymgysylltiad â'r cyhoedd yn ystod y misoedd diwethaf. Mae hyn yn gyfle a gaiff ei golli.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth ddrafft ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch gweithredu ar newid hinsawdd. Nid yw'n glir a fydd hyn yn cyflawni camau gweithredu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r angen i leihau effaith cartrefi Cymru ar yr hinsawdd, a sut y bydd yn gwneud hynny. Byddem yn croesawu esboniad gan y Gweinidog ar y mater hwn.

Siop un stop ar gyfer cyngor a chymorth

Mae diffyg mynediad at gyngor a gwybodaeth o ansawdd y gellir ymddiried ynddynt yn rhwystr i weithgarwch effeithlonrwydd ynni yn y sector preifat. Mae arwyddion calonogol bod Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd da tuag at fynd i'r afael â hyn drwy sefydlu ei Hwb Perfformiad Tai Carbon Sero Net. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad yw rhanddeiliaid, gan gynnwys proffesiynolion tai sy'n gweithredu yng Nghymru, yn ymwybodol o gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Hwb.

Yn y lle cyntaf, bydd yr Hwb ar gael i landlordiaid cymdeithasol. Rhagwelir ehangu'r gwasanaethau a gynigir gan yr Hwb i helpu landlordiaid preifat a pherchnogion tai.

Unwaith y bydd yr Hwb yn weithredol, dim ond i landlordiaid cymdeithasol y bydd ar gael, o leiaf yn y tymor byr. Rydym yn cwestiynu'r rhesymeg dros hyn. O ystyried y gallai fod rhai perchnogion eiddo eisoes yn fodlon ac yn gallu cynnal gweithgarwch ôl-osod, credwn y byddai'n fuddiol i'r Hwb fod ar gael i bawb o'r cychwyn cyntaf.

Argymhelliad 19. Dylai'r Gweinidog egluro pam na chynhaliwyd arolwg tai Cymru yn 2022. Dylai ymrwmo i gynnal arolwg cenedlaethol parhaus, yn debyg i'r English Housing Survey, gan gynnal yr arolwg cyntaf cyn gynted ag sy'n ymarferol. Os nad yw'r Gweinidog yn fodlon ymrwmo i arolwg o'r fath, dylai roi esboniad manwl o'r rheswm pam.

Argymhelliad 20. Dylai'r Gweinidog egluro a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella'r ddealltwriaeth o'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon yn y sector preifat heb fynediad at ddata clyfar, a sut y bydd yn gwneud hynny.

Argymhelliad 21. Dylai'r Gweinidog roi manylion ei thrafodaethau diweddaraf gyda Llywodraeth y DU ar gael mynediad at ddata mesuryddion clyfar. Dylai hi

ymrwymo i barhau i bwysu ar Lywodraeth y DU ar y mater hwn hyd nes y gellir dod i benderfyniad.

Argymhelliad 22. Dylai'r Gweinidog ymrwymo i weithredu'r argymhelliad a wnaed yn adroddiad Jofeh mewn perthynas â Chofnodlyfrau Cartref/Pasbortau Adnewyddu Adeiladau. Wrth wneud hynny, dylai archwilio'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor hwn y gallai Pasbortau Adnewyddu Adeiladau, drwy weithio gyda'r sector preifat, fod ar gael i berchnogion tai am ddim.

Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog egluro a fydd strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd i gymryd camau mewn perthynas â newid hinsawdd yn arwain at gymryd camau uniongyrchol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r angen i leihau effaith cartrefi Cymru ar yr hinsawdd, a sut y bydd yn gwneud hynny.

Argymhelliad 24. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod y Perfformiad Tai Carbon Sero Net ar gael i bob deiliadaeth cyn gynted ag y caiff ei sefydlu.

Argymhelliad 25. Dylai'r Gweinidog egluro sut y mae'n bwriadu codi ymwybyddiaeth o berfformiad yr Hwb Perfformiad Tai Carbon Sero Net ymhlith rhanddeiliaid a pherchnogion eiddo gyda golwg ar sicrhau y gallant fanteisio'n llawn ar y gwasanaethau cyngor a chymorth sydd ar gael.

6. Datblygu sgiliau a'r gadwyn gyflenwi

106. Nododd rhanddeiliaid fod diffyg datblygiad o ran cadwyn gyflenwi a sylfaen sgiliau yn rhwystr sylweddol i ôl-osod cartrefi Cymru. Mae'r materion hyn eisoes wedi'u hamlygu mewn gwaith a wnaed gan bwyllgorau eraill y Senedd, yn ogystal â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r New Economics Foundation yn eu hadroddiadau, **Cartrefi Addas ar gyfer y Dyfodol**, a **Sgiliau drwy Argyfwng: Uwchsgilio ac (Ail)Hyfforddi ar gyfer Adferiad Gwyrdd yng Nghymru** (Mai 2021).

107. Dywedodd RICS wrth y Pwyllgor fod **Arddangoswr Cronfa Datgarboneiddio Tai Cymdeithasol** Llywodraeth y DU yn nodi bod heriau sgiliau a'r gadwyn gyflenwi yn rhwystr o ran symud ymlaen.

108. Dywedodd UKGBC fod llawer o osodwyr a chynhyrchwyr boeleri traddodiadol yn parhau i ganolbwyntio ar systemau tanwydd ffosil traddodiadol – ac nad yw buddsoddiad mewn uwchsgilio, cadwyni cyflenwi newydd a dulliau cynhyrchu yn cael eu gwrthbwysu gan y galw presennol am gynhyrchion gwyrddach. Ychwanegodd:

“To scale up the number of home retrofits possible a huge programme of upskilling and investment is needed across the industry. However, there is no point in training vast numbers of retrofit contractors if there is not sufficient demand for their services. Demand creation and building the supply chain need to go in tandem.”⁹²

109. Dywedodd y Sefydliad Tai Siartredig wrth y Pwyllgor:

“Delivering this [retrofit] agenda will require 12,710 skilled contractors in Wales alone. This will need a widespread skills drive involving increased funding for green apprentices as well as retraining for the existing ~8,000 RMI workforce. A range of measures will be needed, although we suggest Welsh Government should allocate an increased £2-3m/year for training.”⁹³

110. Galwodd RICS ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cyllideb benodol ar gyfer hyfforddiant i helpu busnesau bach i uwchsgilio eu gweithlu a sicrhau bod gan

⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 26

⁹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 7

Gymru'r sylfaen sgiliau angenrheidiol i wneud gwaith ôl-osod helaeth ar ei stoc dai.⁹⁴

111. Fe wnaeth RICS groesawu creu academiâu ôl-osod yng Nghymru a chyflwyniad TGAU a Safon Uwch yr Amgylchedd Adeiledig. Fodd bynnag, roedd yn haeru bod angen mynd i'r afael â diffyg a gwahaniaeth sylweddol mewn addysg o hyd. Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cydraddoldeb â gweddill y DU a chynnig cyllid Prentisiaeth Gradd ar gyfer y sgiliau hynny a fydd â rôl ddylanwadol o ran ôl-osod a datgarboneiddio – nid dim ond ymhlith gosodwyr, ond hefyd syrfewyr, cynllunwyr a phenseiri.⁹⁵

Tystiolaeth gan y Gweinidog

112. Eglurodd y Gweinidog mai un o'r rhesymau dros ganolbwyntio ar y sector tai cymdeithasol yw er mwyn tyfu'r gweithlu a'r cadwyni cyflenwi i ddatblygu'r seilwaith angenrheidiol i gefnogi datgarboneiddio ehangach.⁹⁶ Awgrymodd y byddai'r ORP a mentrau tai eraill yng Nghymru, yn y pen draw, yn cynhyrchu'r swyddi gwyrdd a'r sgiliau angenrheidiol i symud i gam nesaf y rhaglen datgarboneiddio tai.⁹⁷

113. Roedd disgwyl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei Chynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net (y Cynllun Gweithredu) yng ngwanwyn 2022, a ohiriwyd wedyn i'w gyhoeddi cyn diwedd 2022. Pan ofynnodd y Pwyllgor iddi egluro pryd y byddai'r Cynllun Gweithredu yn cael ei gyhoeddi, dywedodd y Gweinidog y byddai hyn yn digwydd ddechrau'r flwyddyn nesaf.⁹⁸ Pwysleisiodd nad yw'r Cynllun Gweithredu yn dod o fewn ei chyfrifoldebau Gweinidogol, ond yn hytrach mai Gweinidog yr Economi (ynghyd â Gweinidog y Gymraeg a Addysg) sy'n gyfrifol amdano.

Ein barn ni

Mae'r prinder sgiliau ôl-osod yn rhwystr difrifol i ddatgarboneiddio cartrefi presennol Cymru. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhai camau i fynd i'r afael â hyn, mae angen iddi wneud mwy, ac ar frys, i dyfu'r gadwyn gyflenwi a mynd i'r afael â'r prinder sgiliau parhaus. Mae disgwyliad cryf i'r Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol. O ystyried hyn, rydym yn siomedig bod y Cynllun Gweithredu wedi cael ei oedi'n

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 28

⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 28

⁹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 201, 7 Rhagfyr 2022

⁹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 201, 7 Rhagfyr 2022

⁹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 233, 7 Rhagfyr 2022

sylweddol. Rydym yn disgwyl i'r Cynllun Gweithredu gael ei gyhoeddi erbyn mis Mawrth 2023 fan bellaf.

Rydym wedi ymrwymo i wneud gwaith ar sgiliau ôl-osod a'r gadwyn gyflenwi yn ddiweddarach yn y Chweched Senedd pan fyddwn yn mynd ar drywydd y materion a godwyd gan randdeiliaid yn eu tystiolaeth i'r ymchwiliad hwn, a hynny yn fanylach.

Argymhelliad 26. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei Chynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net erbyn mis Mawrth 2023 fan bellaf. Os nad yw mewn sefyllfa i wneud hynny, rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru egluro'r rheswm wrth ymateb i'r adroddiad hwn.

7. Cymhellion cyllidol a datrysiadau ariannol

Sbarduno galw drwy gymhellion cyllidol

114. Pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd cymhellion cyllidol i helpu i yrru'r galw yn y sector preifat, gyda chefnogaeth gref i gyflwyno Treth Trafodiadau Tir amrywiol, y cyfeirir ati hefyd fel Cymhelliant Treth Trafodiadau Tir ar gyfer Arbed Ynni.

“Sut fyddai Cymhelliant Treth Trafodiadau Tir ar gyfer Arbed Ynni yn gweithio?”

Mae galw am ynni'r cartref yn cael ei gyfrifo o'r Dystysgrif Perfformiad Ynni a gynhyrchir yn annibynnol.

Mae'r dreth trafodiadau tir sydd i'w thalu yn cael ei haddasu i fyny neu i lawr ar sail y galw am ynni a gyfrifir gan y cartref – po orau yw'r perfformiad ynni, yr isaf yw'r dreth sy'n cael ei thalu.

Os bydd y prynwr yn gwneud gwelliannau ynni isel o fewn dwy flynedd, ac yn cael Tystysgrif Perfformiad Ynni wedi'i diweddarau, byddai ad-daliad yn cael ei dalu fel pe bai'r gwelliant wedi'i wneud cyn prynu.

Gallai'r llywodraeth gynyddu gwerth yr ad-daliad sy'n cael ei dalu i gartrefi gwerth is i helpu i roi cymhorthdal i gostau'r mesurau perfformiad ynni gosodedig.

Byddai unrhyw welliant cydnabyddedig yn effeithlonrwydd ynni'r cartref yn lleihau'r dreth trafodiadau tir sy'n cael ei thalu.”

115. Yn ôl UKGBC, byddai Cymhelliant Treth Trafodiadau Tir ar gyfer Arbed Ynni, ynghyd â grantiau ar gyfer cartrefi gwerth is, yn ddatrysiad strwythurol ymarferol ac effeithiol, gan weithio'n ddi-dor gyda threfniadau a pholisïau cyllid gwyrdd presennol, yn ogystal â sbarduno dulliau arloesol newydd o uwchraddio cartrefi.⁹⁹ Dywedodd Andy Sutton, Sero, wrth y Pwyllgor fod Treth Trafodiadau Tir amrywiol/Treth Trafodiadau Tir ar gyfer Arbed Ynni yn enghraifft dda o ymyriad

⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 26

cadarnhaol a fyddai'n newid ymddygiad y farchnad, yn hytrach na bod yn ateb tymor byr. Dywedodd fod angen ysgogi newid mewn ymddygiad.¹⁰⁰

116. Galwodd Chris Jofeh ar i Fanc Datblygu Cymru arwain y gwaith o dreialu Treth Trafodiadau Tir amrywiol yng Nghymru. Dywedodd:

*"I'm hopeful that Welsh Government will be brave and dip a toe in the water and try it out. We've passed the point at which we can study things indefinitely until we get it perfect; I think we just have to be brave and try things, and be ready to pull the plug if they don't work."*¹⁰¹

Tystiolaeth gan y Gweinidog

117. Pan ofynnwyd iddi am ei barn ar Dreth Trafodiadau Tir amrywiol/Treth Trafodiadau Tir ar gyfer Arbed Ynni, dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwysig cofio mai prif ddiben y dreth trafodiadau tir yw codi refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog fod ganddi hi a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ddiddordeb gwirioneddol mewn archwilio sut y gellir defnyddio ein holl drethi ar gyfer newid ymddygiad yng nghyd-destun newid hinsawdd. Ychwanegodd fod ganddynt ddiddordeb arbennig ynghylch a allai cymhellion ar drefniadau bandio'r dreth gyngor fod yn rhywbeth i edrych arno ar gyfer eiddo sy'n cael eu codi i EPC gradd A neu well.¹⁰²

118. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor mai mater i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol fyddai defnyddio'r dreth gyngor i gymell ôl-osod effeithlonrwydd ynni.

Morgeisi gwyrdd

119. Daw cynhyrchion morgeisi gwyrdd mewn amrywiaeth o wahanol ffurfiau, ond nod pob un ohonynt yw cymell perchnogion tai i fuddsoddi i wella effeithlonrwydd ynni eu heiddo, er enghraifft drwy gynnig cyfradd llog is na chynhyrchion tebyg eraill a/neu arian yn ôl.

120. Dywedodd UK Finance wrth y Pwyllgor fod y gwaith o ddatblygu a darparu cyllid gwyrdd i helpu perchnogion tai i wella effeithlonrwydd ynni eu heiddo eisoes wedi dechrau. Dywedodd ei fod yn rhagweld y bydd y sector benthyca morgeisi yn parhau i sicrhau bod mwy o gyllid morgeisi yn cael ei ddarparu yn y dyfodol. Dywedodd y bydd hyn yn annog perchnogaeth fwy gwyrdd ar dai a

¹⁰⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 452, 20 Hydref 2022

¹⁰¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 173, 5 Hydref 2022

¹⁰² Cofnod y Trafodion, paragraff 290, 7 Rhagfyr 2022

buddsoddiad mewn eiddo rhent, yn ogystal ag ariannu gwaith ôl-osod gwyrdd a gwella cartrefi.¹⁰³ Dywedodd BSA:

"There are an increasing number of green mortgages and further advances available, to either fund decarbonisation works or which reward a better Energy Performance Certificate (EPC) rating. But, many consumers are still unaware of these products and this is a new product area for many lenders".¹⁰⁴

121. Roedd yn cydnabod bod angen arloesi mwy a chyflymach yn y maes hwn, ac mae wedi bod yn trafod y ffordd orau o gyflawni hyn gyda'r Green Finance Institute.¹⁰⁵

122. Dywedodd y Sefydliad Tai Siartredig wrth y Pwyllgor mai prin yw'r cymhelliant ariannol y mae morgeisi gwyrdd yn ei gynnig i berchen-feddianwyr. Ychwanegodd:

"We are effectively faced with a chicken and egg scenario where lenders are unlikely to explore developing more attractive lending packages because there is little demand from the owner-occupier sector. Low demand is driven by lack of incentive from government or otherwise to spend upward of £17k on retrofitting one's home.

"We need a situation where government incentive and lenders join to create demand and, in turn, drive down market costs of retrofit technologies and approaches."¹⁰⁶

123. Fe wnaeth cynrychiolwyr o'r sector cyllid bwysleisio fod cyllid yn galluogi galw yn hytrach na'i sbarduno.

Talu cost ôl-osod effeithlonrwydd ynni

124. Mae Sero Net Cymru yn esbonio bod cymorth ariannol ar gyfer ôl-osod yn hanesyddol wedi'i dargedu at y rhai lleiaf cefnog yn y cartrefi anoddaf eu gwresogi, a disgwylir i'r blaenoriaethu hwn barhau drwy'r 2020au. Mae hefyd yn esbonio, yn achos y bobl mwyaf cefnog, fod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r farchnad ddarparu datrysiadau ariannol i alluogi ôl-osod cartrefi.

¹⁰³ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 18

¹⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 13

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 89, 20 Hydref 2022

¹⁰⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 7

125. Mae ymchwil a wnaed gan Ysgol Pensaernïaeth Cymru yn amcangyfrif bod cost cyfalaf ôl-osod tŷ cyfan i EPC A (fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Cyngori) rhwng £17,000 a £66,800, yn dibynnu ar archeteip y tŷ. Mynegodd rhanddeiliaid bryder na fyddai costau o'r fath yn fforddiadwy i lawer o berchnogion tai heb gymorth grant a/neu gynhyrchion/datrysiadau ariannol addas.

Datrysiadau ariannol ar gyfer y rhai sy'n 'gallu talu'

126. Ym mis Gorffennaf 2019, argymhelliodd adroddiad Jofeh y dylid "creu dulliau cymorth ariannol ar fyrder ar gyfer perchen-feddiannwyr a landlordiaid preifat sy'n dymuno gwella effeithlonrwydd ynni eu heiddo". Wrth ymateb i'r adroddiad, fe wnaeth Julie James AS, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Thai ar y pryd, ymrwymo i sefydlu grŵp cyllid gwyrdd i archwilio datrysiadau cyllid arloesol.

127. Adleisiodd y rhanddeiliaid ganfyddiadau adroddiad Jofeh ac awgrymwyd mai prin oedd y cynnydd a wnaed tuag at ddatblygu datrysiadau ariannol ar gyfer y sector 'gallu talu' ers ei gyhoeddi.

128. Dywedodd Banc Datblygu Cymru wrth y Pwyllgor ei fod wrthi'n asesu'r pecyn cymorth a fydd yn addas ar gyfer anghenion marchnad Cymru. Ychwanegodd:

*"[We are] working on the development and launch of pilot funding offers which can test and subsequently adjust to evolving market needs...Work in this area is advancing well through the collaboration with Nesta and ongoing discussions with the Welsh Government on funding requirements. Shaping a hybrid funding offer matching an element of grant with repayable finance will be presented to the Welsh Government in the form of a Business Case in the coming months aligned with their desire to extend Optimised RetroFit into these sectors."*¹⁰⁷

Cyllid Cysylltiedig ag Eiddo

129. Roedd cefnogaeth gref i Gyllid Cysylltiedig ag Eiddo (neu gyllid Ynni Glân a Asesir fesul Eiddo) i alluogi perchnogion tai i dalu cost ôl-osod effeithlonrwydd ynni. Mae sawl talaith yn UDA eisoes yn Ynni Glân a Asesir fesul Eiddo.

¹⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 33

Beth yw Cyllid Cysylltiedig ag Eiddo?

"Bydd Cyllid Cysylltiedig ag Eiddo yn cefnogi perchnogion tai trwy ariannu hyd at 100 y cant o'r costau ymlaen llaw ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni, gyda'r nodwedd unigryw bod y cyllid yn 'gysylltiedig' â'r eiddo, yn hytrach na pherchennog yr eiddo.

Mae hyn yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r "rhwystr cyfnod ad-dalu" lle mae perchnogion tai, er bod graddfeydd amser i adennill arbedion yn byrhau oherwydd costau ynni cynyddol, yn cael eu hatal rhag ôl-osod gan nad yw'r arbedion yn y bil ynni dros eu hamser disgwyliedig yn byw yn yr eiddo yn ddigon i'w wneud yn ariannol werth chweil. Mae Cyllid Cysylltiedig ag Eiddo yn gyllid wedi'i sicrhau, sy'n galluogi cyfnodau ad-dalu llawer hirach ac ad-daliadau unigol is."¹⁰⁸

Green Finance Institute

130. Cyllid Cysylltiedig ag Eiddo/Ynni Glân a Asesir fesul Eiddo yw un o'r atebion ariannol allweddol a gynigiwyd gan y Sefydliad Economeg Newydd a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu hadroddiad, Cartrefi Addas ar gyfer y Dyfodol: Yr Her Ôl-osod. Maent yn awgrymu y gallai Cyllid Cysylltiedig ag Eiddo/Ynni Glân a Asesir fesul Eiddo helpu i fynd i'r afael â'r 'cymhelliant rhanedig' yn y sector rhentu preifat, sy'n cael ei nodi'n aml fel rheswm dros berfformiad ynni gwael ar draws y sector. Mynegodd y Sefydliad Tai Siartredig farn debyg.

131. Dywedodd GFI fod ei waith ymchwil wedi dangos bod awydd gan ddefnyddwyr am gynllun Cyllid Cysylltiedig ag Eiddo, a hynny mewn amgylcheddau prisiau ynni sefydlog a chynyddol. Os caiff ei gyfuno â mecanweithiau i ysgogi galw – gan gynnwys mesurau llym (fel rheoliadau) a mesurau deniadol (fel ad-daliadau treth) – a chynlluniau cyllid cyhoeddus, preifat a chyfunol eraill, bydd Cyllid Cysylltiedig ag Eiddo yn chwarae rhan bwysig o ran cefnogi'r gwaith o uwchraddio eang o'r amgylchedd adeiledig ledled y DU.¹⁰⁹

132. Ym mis Awst 2022, fe wnaeth GFI ac Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf **gyhoeddi partneriaeth** i gefnogi gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar draws y ddinas-ranbarth. Bydd yn gweithio gyda sefydliadau perthnasol i dreialu cyfres o

¹⁰⁸ www.greenfinanceinstitute.co.uk/news-and-insights/new-research-shows-uk-appetite-for-innovative-financial-products-to-enable-energy-efficiency-upgrades-and-reduce-energy-bills/#:~:text=Property-Linked%20Finance%20will%20support%20homeowners%20by%20funding%20up.to%20the%20property%20C%20rather%20than%20the%20property%20owner

¹⁰⁹ [Property Linked Finance: Rising consumer demand for energy efficiency and the need for financial innovation](#), Green Finance Institute

ddatrysiadau ariannol, gan gynnwys cynllun Cyllid Cysylltiedig ag Eiddo cyntaf y DU.

133. Awgrymodd sawl rhanddeiliad y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Banc Datblygu Cymru i dreialu cynllun Cyllid Cysylltiedig ag Eiddo. Dywedodd Banc Datblygu Cymru wrth y Pwyllgor ei fod eisoes wedi cysylltu â GFI ar waith yn y maes hwn. Fodd bynnag, awgrymodd na fyddai cynllun peilot yn syml oherwydd ei fod “yn gofyn am lwfansau deddfwriaethol a phwerau datganoledig i greu mecanwaith i gyflawni hyn, yn ogystal ag adnoddau llywodraeth leol i'w weithredu”.¹¹⁰

134. Dywedodd hefyd, er mwyn i Gyllid Cysylltiedig ag Eiddo/Ynni Glân a Asesir fesul Eiddo fod yn ddatrysiad ymarferol posibl i Gymru, ei bod yn “bwysig i'r meysydd llywodraeth sy'n gallu, ystyried a dylanwadu ar yr ystyriaethau deddfwriaethol angenrheidiol ac yn cael eu dwyn i mewn i drafodaethau i ddeall dichonoldeb ac ymarferoldeb hyn. Byddwn yn barod i gyfrannu at y trafodaethau hyn fel y bo'n briodol”.¹¹¹

Benthyciadau cost isel/dim llog

135. Argymhellodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r New Economics Foundation bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Banc Datblygu Cymru i dreialu benthyciadau llog isel i landlordiaid ar gyfer cyllid ôl-osod. Cododd Propertymark ac NRLA bwyntiau tebyg, gyda NRLA yn galw ar Fanc Datblygu Cymru i ddarparu benthyciadau llog isel neu ddim llog i landlordiaid lle maent yn debygol o wynebu costau afresymol wrth wneud gwelliannau effeithlonrwydd ynni, neu lle mae eu heiddo mewn ardal marchnad rhentu isel. Dywedodd NRLA y byddai defnyddio benthyciadau o'r fath yn annog pobl i'w cymryd, tra'n sicrhau nad yw'n costio i drethdalwyr Cymru yn y tymor hir.¹¹²

136. Cyfeiriodd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni at **Fenthyciad Landlordiaid Sector Rhentu Preifat Llywodraeth yr Alban**, a weinyddir gan Home Energy Scotland, sy'n darparu benthyciadau di-log o hyd at £38,500 i helpu landlordiaid i wella effeithlonrwydd ynni eu heiddo a bodloni'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni. Eglurodd:

“Central to the scheme is the delivery of impartial advice. Applicants must contact Home Energy Scotland personally to get impartial advice about their home and engage in a

¹¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 33

¹¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 33

¹¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 6

*decision- making process about how best to improve it. An EPC assessment must also be produced recommending the chosen measures.*¹¹³

137. Roedd y Sefydliad Adeiladu Siartredig yn dadlau o blaid cynllun benthyciad 'Helpu i Drwsio'. Mae hyn yn golygu y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu benthyciadau di-log yn uniongyrchol i berchen-feddianwyr ar gyfer ystod o fesurau a fyddai, er eu bod yn seiliedig ar wella effeithlonrwydd ynni, hefyd yn ymestyn i fesurau eraill, gan gynnwys trawsnewid atigau, estyniadau, rhandai a gwelliannau i'r cartref. Yn ôl y Sefydliad Adeiladu Siartredig, byddai hyn yn ysgogi'r galw sydd eisoes yn uchel am welliannau i'r cartref yn yr economi er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni stoc dai Cymru.¹¹⁴

Cynhyrchion rhyddhau ecwiti

138. Tynnodd sawl rhanddeiliad sylw at gynhyrchion rhyddhau ecwiti fel datrysiad ariannol posibl ar gyfer y sector perchen-feddianwyr, yn enwedig aelwydydd sy'n gyfoethog o ran asedau ond yn dlawd o ran arian parod. Mae rhyddhau ecwiti yn galluogi perchnogion tai i ddatgloi'r ecwiti yn eu heiddo heb orfod symud tŷ.

139. Argymhellodd y New Economics Foundation a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Banc Datblygu Cymru i dreialu benthyciadau rhyddhau ecwiti. Mynegwyd safbwynt tebyg gan RICS, a awgrymodd y gallai'r llywodraeth gynnig sybsideiddio costau ôl-osod yn llawn, gyda chostau'n cael eu hadennill fel canran o werth mewn gwerthiant yn y dyfodol, neu ryddhau ecwiti mewn cyfnod penodol – fel cynllun Cymorth i Brynu Cymru.¹¹⁵

140. Dywedodd Emma Harvey, GFI, wrth y Pwyllgor fod y Cyngor Rhyddhau Ecwiti wedi dechrau troi ei sylw at ddatrysiadau rhyddhau ecwiti gwyrdd, ac mae Legal & General eisoes wedi lansio cynnyrch rhyddhau ecwiti gwyrdd. Fodd bynnag, ychwanegodd bod angen gosod y cynhyrchion hyn o fewn cyd-destun ehangach marchnad rhyddhau ecwiti llymach a mwy cyfeillgar i ddefnyddwyr.¹¹⁶

141. Dywedodd Cenydd Rowlands, Banc Datblygu Cymru, fod ymchwil a gynhaliwyd ar y cyd â Nesta wedi canfod bod cynhyrchion rhyddhau ecwiti gwyrdd yn un o'r cynhyrchion ariannol isaf o ran y defnydd posibl, yn ôl adborth gan berchnogion tai. Ychwanegodd:

¹¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 25

¹¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 22

¹¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, DH2P 28

¹¹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 101, 20 Hydref 2022

*"It's not too different to what we see in the business equity space in Wales, which we have a good insight to in DBW, where the notion of, 'I don't want to give up a slice of what I own' is a strong characteristic and a difficult one to overcome, despite being able to point to a number of very good reasons why it can be an effective solution."*¹¹⁷

142. Fe wnaeth Paul Broadhead, BSA, sôn am nerfusrwydd ynghylch rhyddhau ecwiti, gyda chred ymhlith perchnogion tai y bydd y llog ar y benthyciad yn tyfu ac yn bwyta i mewn i'r etifeddiaeth y maent wedyn yn mynd i'w throsglwyddo.¹¹⁸ Fodd bynnag, dywedodd hefyd fod y diwydiant yn arloesi i oresgyn hyn.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

143. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod "datgarboneiddio a gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru, ym mhob deiliadaeth, a'r ffordd y byddwn yn ariannu hyn, yn gymhleth. Mae heriau sylweddol o ran y seilwaith a'r cyllid sydd ei angen. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid i archwilio opsiynau."¹¹⁹

144. Yn ôl y Gweinidog, mae Llywodraeth Cymru "wedi dechrau gwerthuso amrywiaeth o opsiynau ar gyfer ariannu gwaith ôl-osod yn y sector perchen-feddianwyr a'r sector rhentu preifat. Mae'r rhain yn ymgorffori cyllid grant a chyllid ad-daladwy. Bydd capasiti ariannol y defnyddiwr terfynol yn helpu i'w gyfeirio at yr ateb ariannu mwyaf priodol yn y tymor canolig." Dywedodd fod y modelau ariannu a fydd yn cael eu hystyried yn cynnwys Ynni Glân a Aseswyd fesul Eiddo, benthyciadau llog isel, benthyciadau rhyddhau ecwiti a morgeisi gwyrdd. Ychwanegodd, "mae'n bosibl hefyd y bydd angen mecanwaith grant ar gyfer aelwydydd incwm is er, ar gyfer y rhai sydd mewn tlodi tanwydd sy'n bodloni meini prawf y cynllun, mae Cynllun Nyth y Rhaglen Cartrefi Clyd wedi bod yn darparu cymorth".¹²⁰

145. Cadarnhaodd swyddog y Gweinidog fod Banc Datblygu Cymru yn gweithio gyda Nesta ar gynlluniau peilot ar gyfer cyllid gwyrdd i berchen-feddianwyr.¹²¹

¹¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 109, 20 Hydref 2022

¹¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 111, 20 Hydref 2022

¹¹⁹ Papur tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar gyfer cyfarfod 7 Rhagfyr 2022

¹²⁰ Papur tystiolaeth gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar gyfer cyfarfod 7 Rhagfyr 2022

¹²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 297, 7 Rhagfyr 2022

Rhagwelir y bydd y gwaith yn arwain at gyflwyno cynnyrch ariannol yn ddiweddarach yn 2023.

146. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn dod â phanel o arbenigwyr ynghyd o bob rhan o'r sector cyllid i helpu i werthuso opsiynau a llunio datrysiadau ariannu hyfyw.

Ein barn ni

Cymhellion ar sail treth

Mae gan gymhellion cyllidol rôl bwysig i'w chwarae o ran newid ymddygiad defnyddwyr ac, ynghyd â mecanweithiau cymorth ariannol priodol, gallent helpu i ysgogi gwaith ôl-osod effeithlonrwydd ynni. Nid yw defnyddio cymhellion cyllidol yn y cyd-destun hwn yn gysyniad newydd, ond mae'n un sydd eto i'w brofi yng Nghymru.

Yn ystod y Bumed Senedd, dywedodd Llywodraeth Cymru na fyddai cymhellion ar sail treth yn cael eu defnyddio, ond nododd y byddai'n fodlon ailedrych ar ei safbwynt yn dibynnu ar unrhyw dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Grŵp Cyngori. Er bod y Grŵp Cyngori wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried y defnydd o'r Dreth Gyngor, mae tystiolaeth y Gweinidog i ni yn awgrymu nad oes unrhyw gynnydd wedi bod o ran bwrw ymlaen â hyn y tu hwnt i drafodaeth gychwynnol rhwng Gweinidogion. Mae hyn yn siomedig.

Byddai cysoni'r Dreth Gyngor ag effeithlonrwydd ynni cartrefi yn newid sylweddol i'r system drethiant bresennol, sydd eisoes yn mynd drwy broses o ddiwygio. Byddai angen cryn dipyn o waith, gan gynnwys cynlluniau peilot a threialon, a byddai angen cryn dipyn o amser paratoi. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddechrau gwaith o ddifrif i asesu dichonoldeb defnyddio'r Dreth Gyngor i gymell gwaith ôl-osod effeithlonrwydd ynni. Rydym yn disgwyl i'r Gweinidog, ar y cyd â'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, gytuno ar raglen waith i fwrw ymlaen â hyn.

Cawsom ein taro gan y gefnogaeth gref yn y dystiolaeth i ddefnyddio Treth Trafodiadau Tir amrywiol i gymell gwaith ôl-osod effeithlonrwydd ynni. Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud eisoes gan amrywiaeth o arbenigwyr cyllid ar y mater hwn. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio hwn fel man cychwyn i ystyried a fyddai Treth Trafodiadau Tir amrywiol yn opsiwn hyfyw yng Nghymru.

Datrysiadau ariannol

Gwyddom na ellir disgwyl i Lywodraeth Cymru dalu cost ôl-osod effeithlonrwydd ynni ar gyfer 1.1 miliwn o gartrefi preifat Cymru, nac yn wir iddi fforddio hyn. Er bod peth arian cyhoeddus ar gael, caiff ei dargedu'n bennaf at aelwydydd incwm isel sydd mewn tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o hynny. Felly, bydd angen i nifer sylweddol o berchnogion eiddo ddod o hyd i ffyrdd o dalu cost ôl-osod.

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru yn y Bumed Senedd i sefydlu grŵp cyllid gwyrdd i archwilio datrysiadau ariannol posibl ar gyfer y sector 'gallu talu'. Fwy na thair blynedd yn ddiweddarach, rydym yn dal i aros am ddatrysiadau. At hynny, mae'r dystiolaeth a gawsom gan randdeiliaid a'r Gweinidog yn awgrymu bod gwaith i ddatblygu atebion mewn cyfnod cynnar o hyd.

Unwaith eto, mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i ddod â phanel o arbenigwyr cyllid ynghyd i helpu i werthuso opsiynau a llunio datrysiadau ariannu hyfyw. Ni all Llywodraeth Cymru fforddio oedi'n hir eto. Rydym yn disgwyl i'r Gweinidog, ar y cyd â Banc Datblygu Cymru a rhanddeiliaid perthnasol eraill, gyflwyno ystod o gynigion cwbl barod ar gyfer y datrysiadau ariannol a ganlyn ar gyfer y sector 'gallu talu': Ynni Glân a Asesir felsu Eiddo/Cyllid Cysylltiedig ag Eiddo; benthyciadau dim llog/llog isel; a benthyciadau rhyddhau ecwiti. Dylid cwblhau'r gwaith hwn ddim hwyrach na 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, gyda'r bwriad o gynnal peilot a threialu datrysiadau wedi hynny.

Er gwaethaf ein pryder ynghylch y diffyg cynnydd a wnaed hyd yma, rydym yn nodi bod cynnig cyllid hybrid wrthi'n cael ei ddatblygu, a bydd yn cael ei ddwyn ymlaen yn 2023. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion am hyn.

Argymhelliad 27. Dylai'r Gweinidog, gan weithio gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, asesu ymarferoldeb defnyddio'r Dreth Gyngor a'r Dreth Trafodiadau Tir i gymell gwaith ôl-osod effeithlonrwydd ynni fel blaenoriaeth. Rhaid i'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, a phob chwe mis wedi hynny, nes bod y gwaith hwn wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 28. Dylai'r Gweinidog gyflymu'r gwaith i ddatblygu cynigion ar gyfer y datrysiadau ariannol a ganlyn ar gyfer y sector 'gallu talu': Ynni Glân a Asesir fesul Eiddo/Cyllid Cysylltiedig ag Eiddo; benthyciadau dim llog/llog isel; a benthyciadau rhyddhau ecwiti. Dylai hi adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, a phob chwe mis wedi hynny, nes bod y gwaith hwn wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 29. Dylai'r Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion am y cynnig cyllid hybrid sy'n deillio o waith Banc Datblygu Cymru a Nesta. Dylai hyn gynnwys dyddiad targed ar gyfer cyflwyno ar draws y sector.

Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar **wefan y Pwyllgor**.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
5 Hydref 2022	Dr Donal Brown, Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd, Sustainable Design Collective Ltd Rhiannon Hardiman, Ysgogwr Newid (Natur, Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio), Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru Christopher Jofhe, Cadeirydd, Grŵp Gweithredu Annibynnol Llywodraeth Cymru ar Ddatgarboneiddio Tai Presennol
5 Hydref 2022	Catherine May, Rheolwr Tyfu Tai Cymru, Sefydliad Tai Siartredig Cymru Andy Regan, Rheolwr Cenhadaeth, Cenhadaeth Dyfodol Cynaliadwy, NESTA
20 Hydref 2022	Paul Broadhead, Pennaeth Morgeisi a Thai, Cymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu Emma Harvey, Cyfarwyddwr Rhaglen, Green Finance Institute Matthew Jupp, Pennaeth Polisi Morgeisi, UK Finance Cenydd Rowlands, Cyfarwyddwr Eiddo, Banc Datblygu Cymru
20 Hydref 2022	Dan Wilson Craw, Dirprwy Cyfarwyddwr, Generation Rent Gavin Dick, Swyddog Polisi, Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl Timothy Douglas, Pennaeth Polisi ac Ymgyrchoedd, Propertymark
20 Hydref 2022	David Adams, Ymgynghorydd Cynaliadwyedd, Cyngor Adeiladu Gwyrdd y DU

Dyddiad	Enw a Sefydliad
	Gordon Brown MCIOB, Cadeirydd Pwyllgor Hwb Aelodau Cymru, Sefydliad Adeiladu Siartredig Sam Rees, Uwch Swyddog Materion Cyhoeddus - Cymru, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig Andy Sutton, Cyd-sylfaenydd a Phrif Swyddog Arloesi, Sero

Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar [**wefan y Pwyllgor**](#).

Cyfeirnod	Sefydliad
DH2P 01	Trinity House
DH2P 02	Unigolyn
DH2P 03	Action on Empty Homes (AEH)
DH2P 04	Unigolyn
DH2P 05	Christopher Jofeh
DH2P 06	Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl
DH2P 06A	Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl
DH2P 07	Sefydliad Tai Siartredig Cymru
DH2P 08	Calor
DH2P 09	Gofal a Thrwsio Cymru
DH2P 10	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
DH2P 11	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA Cymru)
DH2P 12	Y Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB Cymru)
DH2P 13	Cymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu
DH2P 14	National Energy Action (NEA) Cymru
DH2P 15	Sero
DH2P 16	Ynni Cymunedol Cymru
DH2P 17	Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr Cymru
DH2P 18	UK Finance
DH2P 19	Y Sefydliad Safonau Prydeinig
DH2P 20	Cwmpas
DH2P 21	Archwilio Cymru

Cyfeirnod	Sefydliad
DH2P 22	Y Sefydliad Adeiladu Siartredig
DH2P 23	Propertymark
DH2P 24	Generation Rent
DH2P 25	Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
DH2P 26	Cyngor Adeiladu Gwyrdd y DU
DH2P 27	Panel Arbenigwyr Tai, Penaethiaid Grŵp Iechyd yr Amgylchedd yng Nghymru
DH2P 28	Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)
DH2P 29	Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru
DH2P 30	The Property Institute (TPI)
DH2P 31	Robert Chapman, Cyngorydd Eiddo Strategol ac Ymarferydd Adfywio
DH2P 32	Nesta
DH2P 33	Banc Datblygu Cymru